# ECO'R WYDDFA

Rhif 246 MEHEFIN 1998 Pris 30c


## Cyfarfod Blynyddol *Eco'r Wyddfa*

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol eleni yn y Sefydliad Coffa, Llanrug, nos Fercher, 13 Mai. Roedd *pump* yn bresennol gan gynnwys y Cadeirydd a derbyniwyd pum ymddiheuriad. Mynegodd y Cadeirydd ei siom yn y nifer oedd yn bresennol o gofio bod dros dwy fil o rifynnau o'r *Eco* yn cael eu dosbarthu'n fisol. Golyga hyn, yn ôl fformiwla gydnabyddedig, fod dros chwe mil o bobl yn ei ddarllen! Anodd credu, felly, mai dim ond pump drodd i fyny i'r Cyfarfod Blynyddol.

Cafwyd crynodeb gan y Cadeirydd o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfodydd llywio yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd sylw pennaf i'r drwg-ddyledwyr gan weithredu yn ôl yr hyn a grybwyllwyd yng Nghyfarfod Blynyddol 1997. Nododd y Trysorydd fod y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn.

Er bod amser maith wedi mynd heibio ers pan benderfynwyd cyhoeddi Mynegai i'r *Eco*, gellir sicrhau pawb sydd â diddordeb fod gweithgareddau'n parhau ar y gweill i'w gwblhau. Trefnir cyfarfod yn y dyfodol agos i gwblhau'r trefniadau.

Yn dilyn ymddiswyddiad Ann a Jeremy Gibbins fel Trefnyddion Bwndelu cynigiodd Miss Jean P. Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen ei gwasanaeth i lenwi'r bwlch. Croesawn Jean i'r tîm tra ar yr un pryd yn diolch i Ann a Jeremy am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd.

Penderfynwyd gwneud apêl arbennig er sicrhau mwy o gefnogaeth a chymorth i'r sustem blygu. Ychydig iawn sy'n troi'i fyny i blygu'r *Eco* yn fisol, ond mae'r broblem yn dwysau yn ystod y ddau fis cyn y Nadolig. Mae'r ddau rhifyn hwnnw'n drwmlwythog ac ma angen nifer fawr i'w plygu. Mae'r plygu'n digwydd o bentref i bentref yn fisol rhag mynd yn drwm ar un ardal. Nid yw'n ormodol, felly, i apelio am eich cymorth i neilltuo un noson y flwyddyn i gynorthwyo gyda phlygu *Eco'r Wyddfa*.

Cafwyd adroddiad gan Iwan Roberts, y Golygydd. Mynegodd ei werthfawrogiad o'r rhai sy'n cyfrannu'n rheolaidd yn ysgrifenedig i'r *Eco* — colofnwyr a gohebwyr — ac mae'r newyddion pentrefol yn drylwyr ac o'r safon uchaf. Mynegodd ei siom o'r ffaith nad oedd digon o ddefnydd yn cael ei wneud o gamerâu'r *Eco*. Nid oes digon o luniau yn ei gyrraedd o fis i fis. Teimla Iwan fod angen golygydd ychwanegol a hwnnw, os yn

*(Parhad ar dudalen 2)*

# CYSWLLT RHYNGWLADOL I'R ANTUR



*Rhai o weithwyr yr Antur gyda'u hymwelwyr o Lesotho.*

Roedd Antur Waunfawr yn ymdopi â nifer o ieithoedd gwahanol yn ddiweddar pan gawsant ymweliadau gan grwpiau o ddwy wlad, yn ystod yr un wythnos.

Daeth cynrychiolaeth o ysgol arbennig i bob ag anawsterau dysgu o Ddenmarc draw i Gymru am dair wythnos gan ddefnyddio Antur Waunfawr fel canolfan cyswllt lleol.

Bwriad eu taith oedd gweld pa gyfleusterau sydd yma yng Nghymru i bobl ag anawsterau dysgu, ac fe drefnwyd ymweliadau iddynt i nifer o ganolfannau'n ymwneud â phobl ifanc ag anawsterau dysgu gan Antur Waunfawr. Roedd y canolfannau hyn yn cynnwys Ysgol Pendalar, Menter Fachwen, Coleg Menai, a.y.y.b. Yn ogystal bu'r criw yn mwynhau atyniadau gogledd Cymru ac wedi mwynhau'n fawr eu taith i amgueddfa'r Beatles yn Lerpwl.

Yr un wythnos daeth cris o bobl ifanc o eglwysi Lesotho draw i'r Antur, eto gyda'r bwriad o weld sut adnoddau a chyfleusterau sydd yma ym Mhrydain ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu. Trefnwyd yr ymweliad gan Dolen Cymu-Lesotho ac roedd yn gyfle gwych i weithwyr yr Antur a'r ymwelwyr drafod a chymharu eu gwaith a'u ffordd o fyw.

## Tele Cabana yn Llanberis

Yn ystod 16 a 17 Mehefin mi fydd y Tele Cabana yn dod i Lanberis. Ydy, mae o'n swnio fel rhyw ddiod egstotig, ond rhywbeth tebyg i garafán ydi hi sy'n cynnwys offer cyfrifiadurol. Os ydych chi'n perthyn i unrhyw grŵp gwirfoddol gallwch gael hyfforddiant cyfrifiadurol yn rhad ac am ddim. Os ydych chi'n hen law ar gyfrifiadura gallwch gael sesiynau arbennigol ar gadw bas data, cyfrifon neu greu tudalen ar y we. Os nad ydych erioed wedi cyffwrdd a chyfrifiadur gallech gael cyflwyniad sylfaenol i'r dechnoleg. Os oes yna grŵp o rhwng 7 a 12 mewn nifer eisiau hyfforddiant penodol, e.e. cynhyrchu adroddiad capel, ysgrifennu cofnodion a llythyrau, cysodi i bapur bro neu gadw cyfrifon ar raglen arbennig, cysylltwch cyn gynted â phosib a Mantell Gwynedd ar (01286) 672 626. Bydd yn gyfle rhagorol i chi gael hyfforddiant rhad ac am ddim ar y cyfrifiadur ar garreg eich drws. Dyma'r amserlen:

| DYDD | BORE 10am - 1.00pm. | PRYNHAWN 2pm - 5pm | HWYR 6.30pm - 9.30pm |
|---|---|---|---|
| MAWRTH | Defnyddio'r cyfrifiadur dechreuwyr | Cadw Cyfrifon/ Bas data | DTP Cyhoeddi pen bwrdd |
| MERCHER | Prosesu geiriau sylfaenol/uwch | Cyflwyniad i'r rhyngrwyd | |



# ECO'R WYDDFA

**Rhif 246**
**MEHEFIN 1998**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*


## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570**

| RHIFYN | DYDDIAD COPI | DYDDIAD PLYGU | BLE? | CYSYLLTU Â |
|---|---|---|---|---|
| GORFFENNAF | MEHEFIN 22 | GORFFENNAF 2 | BETHEL | Mr Geraint Ellis |
| AWST | — | — | — | — |
| MEDI | AWST 24 | MEDI 3 | DINORWIG | Miss Marian Jones |
| HYDREF | MEDI 21 | HYDREF 1 | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans |
| TACHWEDD | HYDREF 19 | HYDREF 29 | LLANBERIS | Mr Gwilym Evans |
| RHAGFYR | TACHWEDD 16 | TACHWEDD 26 | CAEATHRO | Mr Clive James |


### SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Golygyddol:**
**JOHN PRITCHARD**
**CILFYNYDD, LLANBERIS**
**Ffôn: (01286) 872390**

**IWAN ROBERTS**
**LLEIFIOR, LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 675649**

**Cadeirydd Pwyllgor Llywio:**
**ARWEL JONES**
**CAE EBONI, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 871274**

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**DYDDIADUR Y MIS**
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**DATBLYGU LLUNIAU**
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

**TREFNYDD BWNDELU**
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DEINIOLEN:** W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


### Y RHIFYN NESAF

**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, GORFFENNAF 2**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, MEHEFIN 22**
**Os gwelwch yn dda**

## Cau Llwybrau Coed Fictoria

Annwyl Olygydd,

Carwn ymateb i'ch erthygl yn rhifyn diwethaf yr *Eco*. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn dwyn y cywiriadau a ganlyn i'r erthygl i sylw eich darllenwyr.

Adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, Mai 5ed 1998, nid oes yr un llwybr wedi ei gau.

Mae archwiliad safle wedi ei gynnal gyda Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd ac mae cais wedi ei wneud i gau llwybrau 8 a 9 am gyfnod o dri mis AR SAIL IECHYD A DIOGELWCH, gan y bydd gwaith torri coed yn digwydd yn agos i'r llwybrau cyhoeddus.

Mae'r ffordd o'r glwyd i'r tir uchel y tu ôl i Gellihirbant yn ffordd breifat, ac mae hon hefyd wedi ei chau ar sail diogelwch.

Mae pob croeso i'r cyhoedd ddefnyddio'r coed yn ddirwystr, a dyma fydd polisi perchnogion y goedwig, fy mrawd a minnau.

DEREK J. Ll. DAVIES

*Diolchwn am yr ymateb uchod. Credwn bod yr erthygl wreiddiol yn gywir gan mai cyfeirio a wnaed at y pryder yn lleol y gallai'r datblygiad amharu ar yr hawl i ddefnyddio'r llwybr. Deallwn hefyd bod hysbysiad wedi ei gynnwys yn y C&D ar Fai 8 yn nodi bwriad Cyngor Gwynedd i gau'r llwybrau ymhen saith diwrnod am gyfnod hyd at chwe mis. Yr oedd yr Eco wedi ei argraffu wythnos cyn hynny. — Gol.*

## Cyfarchion o Seland Newydd

Annwyl Olygydd,

Mae Gracie Roberts, Waterfall View yn garedig dros ben yn anfon *Eco'r Wyddfa* i ni yn gyson a hynny efo'r Air Mail. Fedra i ddim deud wrthach chi gymaint o bleser ydan ni'n 'i gael o'i ddarllen, er bod llawer iawn o newyd yn Llanberis ers i ni 'madael yn 1964.

Roeddwn yn arfer rhoi'r papur ar ôl imi ei ddarllen i ffrind annwyl o Gaernarfon, ond bu Margaret farw ar ôl cystudd hir. Af a'r rhifynnau i Gyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Gymraeg er nad oes yno lawer sy'n darllen Cymraeg.

Daethom yma pan gafodd Egryn swydd Superintendent Engineer efo Shipping Co., a chael byw adref fel teulu yn lle bod Eirian yn gofyn pam nad oedd ei thad yn dod adref am swper chwarel! Egryn wedi ymddeol ers rhai blynyddoedd bellach ond mae digon o waith o gwmpas y cartref. Eirian yn Senior Audit Supervisor yn y Government Audit Office — mae hi'n Chartered Accountant.

Gwlad braf yma a thywydd dymunol. Yr unig beth sy'n rhoi arswyd imi yma yw ambell ddaeargryn.

Cofion cu,

EGRYN a RHIANNON EVANS
ac EIRIAN

8 Cleary Street
Waterloo
Lower Hutt, Seland Newydd


I drin a thrwsio pob math o beriannau gwnïo

**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr**
**PORTHAETHWY**
**Ffôn: (01248) 714043 neu (01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc



**PLAID CYMRU LLANRUG**

**Edrychwn ymlaen at weld aelodau a ffrindiau yn yr**

**HELFA DRYSOR**

**a gynhelir**
**nos WENER, 19 MEHEFIN**
**Cychwyn am 6.30 p.m wrth Ysgol Brynrefail**

**Enwau i**
**ALED ROBERTS**
**HAFLE, LLANRUG**
**Ffôn (01286) 675 510**
**erbyn 12 Mehefin**


*(Parhad o'r dudalen flaen)*

bosibl, o ardal Waunfawr neu Gaeathro. Gan ei fod ef a'r Parchg John Pritchard a Richard Lloyd Jones a'u bysedd ar byls ardaloedd Llanberis, Llanrug, Deiniolen a Bethel, byddai person o'r ardaloedd eraill yn sicr yn atgyfnerthu y panel golygyddol. Os oes rhywun â diddordeb cysylltwch â'r Golygyddion, os gwelwch yn dda.

Er nad oedd Trefnydd yr Hysbysebion yn bresennol mynegodd, dros y ffôn, fod angen mwy o hysbysebwyr. Mynegodd hefyd ei ddiolch diffuant i'r hysbysebwyr cyson a pharhaol — heb eu cymorth hwy byddai'n amhosibl cynhyrchu'r *Eco*. Hysbysebwyr lu, cofiwch fod dros chwe mil yn darllen yr *Eco* bob mis.

Cyhoedd y Trefnydd Gwerthiant Post fod saith deg rhifyn yn cael ei bostio i'r darllenwyr.

Cyhoeddodd y Trefnydd Ariannol fod gwerthiant yr *Eco* yn gostwng. Er bod y sefyllfa'n weddol dderbyniol ar hyn o bryd, mae'n ofynnol cadw llygad ar y sefyllfa. Apeliodd am gymorth i gynyddu'r gwerthiant. Gweler adroddiad ariannol y Trysorydd.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r cyn-ohebwr, Mr John Grisdale, ac fe'i llongyfarchodd ar gael ei benodi'n bennaeth Ysgol Treborth, Bangor.

### GAIR O DDIOLCH

Dymuna'r Prifardd Selwyn Griffith ddiolch yn gynnes iawn am y llu cyfarchion a'r galwadau ffôn (gan gynnwys ambell unawd/deuawd) a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd ychydig dros ei un ar hugain oed.

Diolch hefyd i'r cyfeillion a ddaeth o bell ac agos i'r noson ddathlu yn Llanberis, ac i'r ffrindiau a alwodd yng Nghrud-yr-Awen, a diolch iddynt i gyd am eu haddewid i ddod i'r aduniad ar 19 Mai 2028, gan y bydd hwnnw'n achlysur go arbennig!




**MAE'R GWANWYN YN DOD!**
**I dorri'ch gwair yn fisol (a'i glirio) cysylltwch â:**

**WIL G. ROBERTS**
**Bod Gwilym, Cwm-y-glo**
**Ffôn: (01286) 870674**
**GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL**

## Cerdded i wella cancr



Rhai o'r Cyfeillion a gwirfoddolwyr a gerddodd saith milltir ar 9 Mai, gan godi dros £400 at Gronfa Ymchwil Cancr. Hoffai'r trefnwyr ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr achos arbennig yma.

## Llyfryn newydd i bobl ag anabledd

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cyhoeddi llyfryn newydd sy'n rhestru llwybrau ac atyniadau o fewn y Parc sy'n addas i bobl ag anabledd. Dyma'r llyfryn cyntaf o'i fath i'w baratoi gan yr Awdurdod a gobeithio y bydd yn dechrau proses hir o wella cyfleusterau o'r fath yn yr ardal.

Mae *Mwynhau Eryri* yn ffrwyth gwaith ymchwil misoedd lawer a wnaed ar y cyd gyda Grwpiau Mynediad Aberconwy, Arfon, Dwyfor a Meirionnydd a FFLAM (Fforwm Lles Anabledd Meirionnydd).

Dywedodd Eleri Jones, Swyddog Dehongli'r Parc, sydd wedi cydlynu'r prosiect: *'Rydym wedi gwneud pob ymdrech i gynnwys cyn gymaint o safleoedd â phosibl y gwyddom amdanynt, ond oherwydd maint y Parc mae'n bur debyg y bydd ambell le wedi llithro trwy'r rhwyd, a dyna paham yr ydym ni'n dibynnu ar bobl i ddefnyddio'r Ffurflen Arolwg sydd yn y llyfryn i roi gwybod i ni am safleoedd eraill sy'n addas, er mwyn i ni fedru eu cynnwys mewn argraffiadau yn y dyfodol.'*

Mae *Mwynhau Eryri* ar gael yng Nghanolfannau Croeso'r Parc Cenedlaethol yn Aberdyfi, Betws-y-coed, Dolgellau, Blaenau Ffestiniog a Harlech, ac ym Mhencadlys y Parc ym Mhenrhyndeudraeth. Bydd copiau Braille Cymraeg a Saesneg hefyd ar gael yn y Pencadlys yn fuan.

## O Clatterbridge i Fangor



Mae criw o feicwyr yn paratoi at daith beic noddedig o Ysbyty Clatterbridge i Ysbyty Gwynedd i godi arian at yr Uned Cancr newydd sydd i'w agor yn Ysbyty Gwynedd. Mae tri o'r pum beiciwr wedi bod yn dioddef o afiechyd y cancr eu hunain ac wedi cael triniaeth lwyddiannus. Y tri yw Adrian Jones o Lanrug, sy'n athro yn Preston; Charles Roberts o Ddeiniolen; a Beryl Roberts o Landdoged sy'n nyrs yn Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Gyda hwy ar y daith bydd Martin Williams o Glwt-y-bont ac Aled Vaughan o Gaeathro. Bwriedir cwblhau'r daith mewn dau ddiwrnod, sef 20 a 21 Mehefin. Dymunwn yn dda i'r pump yn eu hymdrech i godi arian at achos mor bwysig. Os oes rhywun yn dymuno noddi'r beicwyr cysylltwch â **Charles Roberts, 29 Stryd Newydd, Deiniolen (01286) 870 743.**

## Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Etholwyd Mr Dafydd Morris, Deiniolen yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn a Mr Keith Jones, Brynrefail yn Is-gadeirydd.

Derbyniodd y Cyngor lythyr maith o'r Swyddfa Gymreig yn dilyn eu pryderon ynglŷn â chael cynrychiolaeth ar gyrff llywodraethol ysgolion cynradd o fewn eu tiriogaeth yn y dyfodol.

Eglurodd y Clerc nad oedd wedi derbyn awgrymiadau ar gyfer safleoedd i gasglu deunyddiau i'w hailgylchu o nifer o bentrefi'r plwy. Bethel yw'r unig bentre sydd wedi manteisio ar y cyfle.

Roedd y Cyngor yn falch o ddeall fod Cyngor Gwynedd yn bwriadu gosod tawelyddion traffig yn ardal Deiniolen yn y dyfodol agos, a bod pethau'n dechrau symud i wella cyflwr y pentref yn gyffredinol.

Cafwyd rhai cwynion ynglŷn â fandaliaeth a phenderfynwyd estyn gwahoddiad i'r Arolygydd Aled Jones i gyfarfod nesaf y Cyngor, a gynhelir yn Ysgol Penisarwaun, 7 Gorffennaf, pryd y ceir cyfle i drafod y broblem o gam-drin cyffuriau ac alcohol yn y Gymuned yn dilyn cylchlythyr a dderbyniwyd gan y mudiad Clais.

Hysbyswyd fod llwybr troed rhif 126 o ffin y plwy hyd at Hafoty, Fach-wen wedi'i gau dros dro drwy orchymyn gan fod rhan o wyneb y llwybr wedi'i olchi i ffwrdd. Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol fe fydd y Cyntgor yn ystyried gwario mwy o arian ar wella cyflwr llwybrau cyhoeddus yn gryffredinol drwy'r plwy.


DAN REOLAETH NEWYDD

LONDON GARAGE

FIAT

CWM Y GLO

★

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT

★

Perchennog: MEL ROBERTS



GORSAF PRAWF MOT

POB MÊC

CEIR a FANIAU BACH

GWASANAETH ac ATGYWEIRIO

CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD

GALWCH MEL AR **(01286) 870234**



neu ffacs: **(01286) 870066**

**AR AGOR:**

**Llun - Gwener: 8.30 a.m. — 5.00 p.m.**

**Sadwrn: 8.30 a.m. — 12.00**






**ORIEL CWM**

**Cwm y Glo**

**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa

o luniau gwreiddiol

gan Artistiaid Lleol

**Richard S. Humphreys**



SPAR

**Y STORFA LLANRUG**

**(Richard a Meirwen Williams)**

**Ffôn: (01286) 672790**

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

**Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug**

# O SIAMBAR SELWYN

**Do, cafwyd diwedd cyffrous i'r tymor pêl-droed eleni. Cefnogwyr timau Everton, Bolton, Manchester United ac Arsenal yn cnoi ewinedd tan y diwedd. Cafwyd dwy gêm gyffrous yng Nghymru hefyd — Bangor a Barri a Bangor v Cei Connah yn y ffeinal am Gwpan Cymru.**

Roeddwn i'n edrych y dydd o'r blaen ar hen gyfrolau o *Cronicl Capel Bethel* am y blynyddoedd 1904-05. Rhys J. Huws oedd gweinidog Bethel ar y pryd ac mewn erthygl yn y *Cronicl*, mis Medi 1904, dywed:

> *Gan yr ymdrechir darparu moddion dyrchafol i'r bobl ifanc eleni, mawr hyderir na chychwynir mo glwb y bêl droed yma. Apelir yn daer at aelodau crefyddol Bethel i ymwrthod a'r chwarae hwn, am y gwyddom ei fod yn darostwng moesau ac yn gerwino iaith ein pobl ifanc.*

'Wn i ddim beth fu ymateb hogia Bethel dros gyfnod y diwygiad crefyddol, ond mi glywais sôn droeon am dîm enwog y 'Bethel Lions' a fu'n hynod lwyddiannus ymhen ychydig flynyddoedd wedyn. Mae pethau wedi newid yn sicr ond mae'n amlwg nad oedd RJH yn awyddus i gysylltu'r Eglwys a chwaraeon.

Ys gwn i a wyddai fod amryw o dimau pêl-droed enwog Lloegr wedi'u sefydlu o dan nawdd cymdeithasau crefyddol ac Ysgolion Sul, a hynny dim ond ychydig flynyddoedd cyn iddo fo apelio at bobl ifanc Bethel i ymwrthod â chicio gwynt?

Crud Aston Villa oedd capel Wesla, a thua'r flwyddyn 1870 arferai bechgyn ifanc a oedd yn aelodau o'r capel hwnnw, giciop pêl ar lawnt y capel ar ôl y gwasanaeth. Drwy ymdrech gŵr o'r enw George Ramsey llwyddwyd i sicrhau cae chwarae iddynt am rent blynyddol o £5. Pum swllt a thair ceiniog a dderbyniwyd wrth y giât yn eu gêm gyntaf.

Everton: Yn 1878 St. Domingo y gelwid y tîm am mai Ysgol Sul yr eglwys honno a sefydlodd y clwb. Wrth ymyl yr eglwys roedd Parc Stanley ac yno y chwaraeodd Everton eu gêmau cyntaf. Symud wedyn i Priory Road gan dderbyn tri swllt ar ddeg wrth y giât yn eu gêm gyntaf. Coeliwch neu beidio buont wedyn yn chwarae yn Anfield am gyfnod, cyn iddynt setlo ym Mharc Goodison yn 1892 gan lwyddo, yn yr un flwyddyn, i gyrraedd y gêm derfynol am Gwpan Lloegr. Stori gwbl wahanol eleni, ynte?

Mae Fulham yn y newyddion hefyd. Kevin Keegan am geisio gwneud gwyrthiau yno. Ar lan y Tafwys mae Craven Cottage ac yn y 'cottage' hwn yr ysgrifennodd Bulwer Lytton *The Last Days of Pompeii*, yn y flwyddyn 1834. Y 'cottage', hyd yn ddiweddar, oedd yr ystafell wisgo. Crud tîm Fulham oedd Ysgol Sul eglwys St. Andrews pryd y gwelid yr aelodau yn ymgynull ar bnawn Sul, hefo beibl mewn un llaw, a phêl yn y llaw arall.

Adwaenir tîm Southampton fel 'Y Saint' ac fe sefydlwyd y tîm hwn hefyd o dan nawdd cymdeithas pobl ifanc eglwys St. Mair, sef eglwys blwyfol Southampton ac o edrych ar gofnodion y gorffennol fe welwn gyfeirio at y clwb fel Southampton St. Mary's, ac arwyddocaol iawn yw mai eu cadeirydd cyntaf oedd yr Archddiacon Wilberforce.

O dan arweiniad y Parchedig Gordon Young y ffurfiwyd clwb enwog arall o Lundain, sef Queen's Park Rangers; a gweindog arall o'r enw William Pitt a sefydlodd glwg Swindon Town yn 1881. Roedd 'na un chwaraewr o safon, o'r enw Harold Fleming, yn nhîm Swindon a enillodd naw cap i Loegr. Roedd o hefyd yn bregethwr cynorthwyol a gwrthodai yn bendant a charae ar ddydd Nadolig a dydd Gwener y Groglith.

Diwedd cyffrous i dymor y bêl gron meddwn i ar gychwyn y llith hwn. Diwedd? *'Nefar in Iwrop!'* â ninnau ar drothwy cystadleuaeth Cwpan y Byd.

Wyddoch chi mai dim ond pedwar tîm o Ewrop a fentrodd i Uruguay ar gyfer y gystadleuaeth gyntaf yn 1930? Ffrainc, Gwlad Belg, Rwmania ac Iwgoslafia oedd y pedwar a hwyliodd dros yr Iwerydd — doedd 'na ddim sôn am hedfan yr adeg honno.

Yn Montevideo y chwaraewyd y ffeinal gyntaf, ar 30 Gorffennaf 1930, pan enillodd Uruguay o bedair gôl i ddwy yn erbyn yr Ariannin.



LLONGYFARCHIADAU
i Selwyn ar ddathlu pen-blwydd go arbennig yn ddiweddar. A glywsoch rhyw si am 'Oed yr Addewid'? Pob dymuniad da i'r dyfodol, gan edrych ymlaen am lawer pen-blwydd arall — a llawer colofn i'r *Eco*. — Golygyddion

Unwaith erioed y llwyddodd Cymru i gyrraedd y rowndiau terfynol a hynny yn Sweden yn 1958. Fe lwyddon nhw i gyrraedd yr wyth olaf, a hynny heb ennill yr un gêm (sgôr gyfartal mewn tair gêm). Fe gollon nhw yn erbyn Brazil o 1-0, a'r sgoriwr oedd bachgen ifanc o'r enw Edson Arantes de Nascim-ento. Pwy? Wel, Pele, 'ta, i ddilynwyr pêl-droed. Tîm Cymru oedd: Kelsey, Williams, Hopkins, Sullivan, Charles M. (roedd ei frawd John wedi ei anafu), Bowen, Medwin, Hewitt, Webster, Allchurch a Cliff Jones.

Pryd cawn ni dîm o'r safon yna eto ys gwn i?

'Nefar in Iwrop?'


***Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?***
***Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?***
***Angen cymorth gyda'ch chyfrifon?***
*Cysylltwch â*
**GORONWY HUGHES**
**Tel/Ffacs (01286) 674839**
**E-Bost gorhug@global.net.uk**
***Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach***

R.D.Thomson
Crefftwaith Coed
**Uned 1A BRYNAFON LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 650732 (fin nos)**
**FFENESTRI : DRYSAU**
**DODREFN : GRISIAU**
**GWAITH TURNIO**
**BLYCHAU CLOCIAU**
**BLYCHAU DAL OFFERYNNAU**
**BLYCHAU ARDDANGOS**

**R. M. (DIC) PARRY**
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
**TAWELFA, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 870846**

SNOWDONIA PARC
**WAUNFAWR Ffôn: 650218**
**★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★**
**★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★**
**★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★**
**★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go Iawn ★**

**Trin Traed Gwartheg**



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.
Ar gyfer buwch neu darw
Hefyd:
Ymgymerir â shafio gwartheg tew

**Dylan Roberts**
Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli
(01758) 770279 : symudol 0421 956143

## 'Un funud fach . . .'

### DAMEG GOLL

Mae defaid yn iawn yn eu lle, ond nid canol pentref yw'r lle hwnnw. Rwyf wedi 'laru gweld defaid yn crwydro a maeddu strydoedd Llanberis. Rwy'n gwybod nad y fi yw'r unig un sy'n gweld y defaid yn bla. Ond goeliech chi fod yna rai sy'n dotio arnynt? Gwelais deulu bach diarth y diwrnod o'r blaen yn tynnu llun defaid oedd yn cerdded yn hamddenol o'r ffordd osgoi i mewn i'r pentref. Mae'n amlwg bod praidd o ddefaid yn mynd am dro i'r dref yn beth go ddiarth iddynt. Ond rhy gyffredin o'r hanner i ni, gwaetha'r modd.

Mater arall yw elyrch. Nid pob dydd y gwelwch chi deulu bach o elyrch yn crwydro'r pentref. Ond dyna welais y bore 'ma: dau alarch a chryn hanner dwsin o gywion yn cerdded yn dalog ar hyd y palmant. Wedi dod o lan y llyn roeddent wedi llwyddo i groesi'r ffordd osgoi yn ddiogel ac yn anelu am y Stryd Fawr. Y cywion bach mewn rhes daclus, a'r rhieni yn gwylio drostynt yn ofalus.

A dyna feddwl ar unwaith bod yna ddameg yno'n rhywle. Ond fedrwn i yn fy myw a'i gweld. Mae'r olygfa wedi bod yn fy meddwl trwy'r dydd. Rwyf wedi pendroni sut i ddefnyddio'r darlun i gyflwyno neges, yn enwedig gan fod angen 'sgwennu'r golofn hon cyn mynd i'r gwely heno. Mae'n tynnu am hanner nos erbyn hyn, ac nid wyf eto wedi llunio'r ddameg. Rwy'n dechrau gweld i mi adael i'r darlun a'r elyrch ddod rhyngof ag unrhyw neges yr oeddwn am ei chyflwyno.

A dyna yw ein perygl yn aml. Gadael i bethau ddod rhyngom â Iesu Grist ei hun. Yn amlach na heb ein crefydda sy'n gwneud hynny. Mae'r dyletswyddau crefyddol yn dod yn bwysicach na'r berthynas â'r Gwaredwr. Gallwn fodloni ar ddarllen darn o'r Beibl, a dweud ein gweddïau, a mynd i oedfa, a gwneud rhyw weithred dda yn hytrach na meithrin perthynas real a phersonol ag Ef. Mae'n hawdd meddwl mwy am bethau eilradd ng am y pethau pwysicaf. Gormod o sylw i'r elyrch sy'n peri nad oes gennyf innau neges i chi'r tro hwn.

JOHN PRITCHARD

# NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

**Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390**




*Mr Wil Davies, Cadeirydd Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch, a Mr Stan Morgan, y Trysorydd, yn cyflwyno siec o £400 i'r Nyrsus Ardal ar ran pwyllgor y Treialon. Dyma elw treialon 1997. Yn derbyn y rhodd mae'r Meddygon Robin Parry, Phil White a Huw Roberts. Cofiwch bod y Treialon yn cael eu cynnal eleni ar Awst 14 a 15.*

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlwn â Trudy Pritchard a'r teulu, Tyddyn Alys o golli ohoni ei nain yn Nottingham.

CWPAN RYGBI. Enillwyd Cwpan Gogledd Cymru eleni gan dîm rygbi Nant Conwy. Llongyfarchiadau i Elgan Metcalfe, Bron Eryri oedd yn gapten y tîm buddugol.

EISTEDDFOD. Roedd yn braf gweld rhai o blant y pentref yn cymryd rhan yn Eisteddfod Llanberis yn festri Capel Coch ddydd Sadwrn, Mai 9. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

CYMORTH CRISTNOGOL. Gwnaed casgliad o ddrws i ddrws yn y pentref yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai a chasglwyd £62.07. Tro'r Eglwys Sant Peris oedd hi i ofalu am y casglu y tro hwn. Diolch i'r casglwyr ac i bawb a gyfrannodd.

BRYSIWCH WELLA. Dymunwn wellhad buan i Mrs Jeni Williams, Pennant, Nant Ffynnon, sydd yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch adref.

DIOLCH. Hoffwn gyfle i ddiolch i chwi i gyd fel ardalwyr a ddangosodd garedigrwydd a chefnogaeth i mi yn ystod fy salwch yn ddiweddar. Roeddwn yn falch ohonoch, yn enwedig dros gyfnod heb haul y gaeaf. Daeth y blodau, cardau, llythyrau, anrhegion a'r negeseuon ffôn â chysur mawr i mi. Rwy'n teimlo'n llawer gwell erbyn hyn. Gobeithiaf eich gweld o gwmpas. Unwaith eto, diolch am fod yna imi. — Brenda Roberts.



*Robat Henri Owen yn cyfarfod â Sam Tân.*

## DRAENOG

**Clywyd sŵn ffraeo mawr yn oriau mân y bore tua Stryd Ceunant yn Llanberis. Y gŵr a'r wraig wedi cael eu deffro gan y defaid yn brefu yn y stryd a'r ddau'n dadlau pwy oedd i godi i hel y defaid i ffwrdd. Mi fyddai Mrs Mac, Cwmderi, wedi setlo'r gŵr a'r defaid mewn dim o dro!**

## Hogia Rygbi Llanberis



*Iwan ac Ian yn y cef, a John Gareth.*

Mae tri o fechgyn Llanberis wedi cael hwyl ar y meysydd rygbi y tymor diwethaf yma. Mae Ian Parry a John Gareth Jones yn aelodau o dimau dan 9 a 10 oed Bangor.

Mae Ian gyda chlwb Bangor ers sawl blwyddyn a John Gareth yn ei dymor cyntaf. Yn ogystal â chwarae yn erbyn timau 'lleol' fel Caernarfon, Llangefni, Bethesda a Phwllheli, maent wedi wynebu timau fel Bae Colwyn a'r Wyddgrug. Fis Mawrth cafodd y ddau gyfle i chwarae mewn Gŵyl Rygbi yn Waterloo, ger Lerpwl. Ddiwedd y tymor cafodd y tîm dan 9 oed wahoddiad i Gystadleuaeth Rygbi'r Ddraig ym Mhorthmadog. Chwaraewyd pedair gêm gan ddod yn ail i dîm yr Wyddgrug. Derbyniodd John Gareth y tlws ar ran y tîm gan mai ef oedd, yn 6 oed, aelod ieuengaf y tîm. Mewn achlysur arbennig ddiwedd y tymor cyflwynwyd Tlws Chwaraewr y Flwyddyn (dan 10 oed) i Ian gan Mr Noel Roberts, Cadeirydd y Clwb.

Dros Glwb Caernarfon y mae Iwan Morris yn chwarae fel arfer. Mae hefyd yn chwarae i dîm ysgolion Gwynedd. Yn ddiweddar cafodd lwyddiant mawr fel aelod o dim 7-bob-ochr Gwynedd a enillodd gystadleuaeth genedlaethol yn y De. Roedd dros ugain o dimau yn cystadlu a hogia Gwynedd a orfu, a dyma'r tro cyntaf erioed i dîm o'r gogledd ennill y cwpan. Mewn gwirionedd dim ond llond dwrn o dimau o un gornel o'r de sydd wedi ennill y gystadleuaeth o gwbl. Llongyfarchiadau mawr i Iwan a'i gydchwaraewyr.


ANTUR WAUNFAWR

**Ar agor Llun - Sadwrn drwy'r haf**
**9.00a.m. — 4.00p.m.**
**Ffôn: (01286) 650 721**

**AR GAEL Y MIS YMA YN Y GANOLFAN ARDDIO**

- ★ **planhigion gwelyau**
- ★ **planhigion tomatos**
- ★ **blodau mewn potiau a basgedi**
- ★ **dewch a'ch basged a photiau atom i'w llenwi**

**STORFA DDODREFN: Mae gennym ddewis da o ddodrefn o safon ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-daliadau. Cofiwch alw ar ddydd Mercher rhwng 10 a 3 i weld beth sydd ar gael yn ein depo ym Mangor: (01248) 355 112**

**I'CH DYDDIADUR: Dathlu Gŵyl Alban Hefin yn yr Antur ddydd Sadwrn, 20 Mehefin.**

# ERGYDION YN Y NOS gan Y Gwalch

Roedd yr hen fugail drwy galedi a diwydrwydd wedi adeiladu y ddiadell fynyddig orau yng Nghymru, gan wisgo ci ar ôl ci allan yn y weithred, a hynny ar ei ddwydroed heb bedair olwyn na spenglas na ffôn bocad, ac yr oedd ganddo fo gwpan i brofi'r ffaith.

Roedd o hefyd wedi bod yn farciwr meheryn er gwella cyflwr y cig a'r gwlân — hynny ydi, tasa fo rywfaint haws ei obeithion erbyn hyn.

Beth bynnag, cafodd gadw meddiant o'i fwthyn, ac yn y fan honno y treuliais i aml awr yn ei gwmni cyn iddo fo gael ei droi i'r gorlan fawr ei hun.

Rwy'n cofio un diwrnod imi ei ganfod wedi ei darfu braidd. Fuaswn i'n meddwl yn ôl yr hyn a ddywedodd, ei fod y bora hwnnw wedi saethu rhyw hen gi yn y cae tros y ffordd tra roedd hwnnw yn cnoi defaid, ac yr oedd hynny wedi achosi cythrwfl cyffredinol ymysg rhai nad oedd â wnelo nhw ddim a'r busnas. Roedd yna griw wedi ymhél; yn ymfudwyr ac arbenigwyr ar ddefaid ac anifeiliaid yn fyd-eang, car plisman a bugeiliaid llith a llyfr yn torsythu a chynghori. Bu'n rhaid iddo ddangos ei drwydded gwn a mynd drwy'r holl rigmarol o berchnogaeth a mesurau diogelwch, ac mi glywodd wedyn fod yna rhyw Saesnas wedi mynd i orsaf yr heddlu i adael cyfarwyddid i'r perwyl os y digwyddid ei chael hi wedi ei gwneud amdani, mai am dan yr hen fugail y dylen nhw fynd i chwilio. Roedd o'n y diwadd, medda fo, yn teimlo fel tasa fo yn chwara rhan yr ewythr drygionus mewn pantomeim, ac erbyn hynny yn difaru ei enaid na fasa fo wedi gadael i'r trychfil redag drwy'r ddiadell i gyd achos, wedi'r cwbl, nid ei eiddo fo oeddan nhw i'w diogelu yn y lle cyntaf.

Mi gafodd fynd adra yn y diwedd at ei dân ei hun, ac ar ôl cael cropar o 'rum' i dawelu ei ymysgaroedd cafodd gyfla i gofio adega cyffelyb ond doethach; un yn arbennig, a hynny fu'n swmbwl iddo fo adrodd yr hanas wrth a i:

Adag clwy y traed a'r gena aoedd hi mi rydw i'n cofio, a roedd y defaid wedi gorfod aros ar y mynydd dipyn yn hwy yr hydref hwnnw o achos y cyfyngdera ynglŷn â symdu da byw. Mi ddaeth yn sgrympia Gŵyl Grog a roedd y defaid wedi dechra hel i lawr am y Ddolwen a chysgod y Muriau Mawr.

Mi ges fy neffro un noson gan fy nhad yn dyrnu ar ddrws y llofft. 'Côd mewn munud,' medda fo fel'na. 'Ma' 'na gŵn lladd defaid ar y Ddolwen.'

Mi neidiais i fy nillad a mynd i lawr y grisia a dyna lle roedd Mam yn ei choban a siôl dros ei swydda yn trio cael bawad o bricia i ffaglu. Roedd y ddu wn yn pwyso ar y bwrdd a nhad ar ben cadair yn rhedag ei law hyd ben y dresal yn chwilio am y blwch cartris.

'Tar dy sgidia,' medda fo a'r munud nesa roeddwn i yn ei g'leuo hi i fyny'r llwybr llechi a Mam yn gweiddi arna i, 'Cofia dorri'r gwn 'na wrth fynd dros y cloddia.'

Ond doeddan ni'n cymryd fawr sylw. Ffwrdd â ni ar draws y weirglodd a'r cob a oedd yn pori yno yn ein dilyn gan chwythu drwy ei ffroenau.

Roedd yna leuad chwartar dwaetha yn gogwydd tua Môr Matholwch ac yr oedd yna awal yn dŵad o gyfeiriad y Ddolwen, ac erbyn i ni gyrraedd Rhiw Rhedynnog roeddan ni yn gallu deud i radda beth oedd yn digwydd yn y fan honno. Roedd yno ddau gi — un yn lladdwr — mi fedrach ddeud hynny a'ch bysadd yn eich clustia. Ci bychan oedd y llall wedi dŵad allan am y noson yn debygol efo'i fêt yn gwmpeini i hwnnw wneud llanast.

Y Belgian un baril oedd gan fy nhad a dyma fo'n fy ngadael i a mynd am Graig yr Adar. 'Mi ddof i i lawr y tu ôl iddyn nhw,' medda fo. 'Dos ditha at Adwy Jini ar y fron yna. Os dôn nhw i lawr rho hi iddyn nhw ar eu hunion, a hidia befo os y byddan nhw ymysg y defaid. Mae'n rhaid i ni eu cael nhw.'

Ffwrdd â mi wedyn drwy'r eithin am Adwy Jini. Roeddwn i'n dal i glywad yr ymrafael ar y Ddolwen. Roedd yna sŵn tebyg i fel tasa'r lladdwr wedi cornelu rhywbeth ac yn rhoi ei sgythranna yno fo hyd at ben draw ei geg.

Pan ddois i i le clir mi welais fod yr helynt wedi bod yn mynd ymlaen ers tipyn. Roedd yna ddau fwndal gwyn ar lawr, ac wrth beth fedrwn i ei ddirnad yn y mymryn lloergan hwnnw, roeddan nhw yn 'foga gora. Roedd 'na un arall yn ymyl yn hopian mewn cylch ar dair coes ac un ysgwydd iddi yn hongian i lawr.

Roeddwn i'n dechra dyfalu yr adag honno be oedd fy nhad yn ei wneud. Roeddwn i'n disgwyl am y glec sengal honno ac yr oedd fy ngwaed i i fyny. Mi es i sefyll hannar ffordd i lawr y bryncyn fel y medrwn i gael lled iawn i danio i fyny ac i lawr. Wrth gwrs fasa'r hen wn dau faril hwnnw ddim yn taflu plu ymhell: yr oedd o'n cael ei ddal wrth ei gilydd hefo lastig a thameidia o linyn, a phan oeddat ti'n tynnu'r trigars wyddat ti didm oeddat ti'n mynd i daro rhywbath ynta tanio bwbi trap.

Wedyn dyma fi'n clywad rhyw ddrymio ar y ddaear a daeth criw o ddefaid ar sgri drwy fwlch yn y clawdd. Roeddwn i wedi codi'r gwn yn barod ond doedd yna ddim hanes o gi. Arhosodd y defaid yn lle yr oeddan nhw dan gorddi, ac yr oedd eu hanadl nhw yn stemio ar yr awyr oer, a'r peth nesa mi glywais fy nhad yn gweiddi fel tasa 'na rhywun wedi gollwng hetar poeth ar ei droed o, 'Tendia ma' nhw'n dŵad i lawr'.

Ond doedd dim angan. Roeddwn i'n clywad yr helfa'n dŵad fel trên, ac mi ddaeth yna chwanag o ddefaid drwy'r bwlch ac mi welais gi yn neidio ar gopi'r clawdd uwch eu penna nhw, a dyna'r lle roedd o wedi ei stampio yn erbyn yr awyr, ac mi saethais o yn ei ben nes yr oedd o'n disgyn fel bwndal o hen ddillad ar ben rhai o'r defaid gan wingo am funud cyn llonyddu, ac mi nabodais o fel rhyw hen fwngrel oeddwn i wedi'i weld ers tro yn crwydro'r lonydd.

A'r funud honno mi welais gi arall ar lawr yn sefyll rhyw ychydig lathenni oddi wrtha i. Labrador mawr du oedd ac yng ngola'r lleuad cyn-wawr yr oedd ei lygada fo'n ymddangos yn binc a fflamllyd, ac yr oedd yn amlwg fod cynddaredd lladd ei lond o. Roedd o'n rhythu arna i ac mi faswn wedi gallu chwythu ei ben o, ond yr oeddwn i dan gyfaredd fel cwningen efo bronwen. Roedd ei geg o'n glafoerio gwaed ac mi fasa wedi medru dod arna i ar un naid, ond yr oeddwn i wedi fy fferu gan y llygada rheiny am funud a wna i byth anghofio'r teimlad.

'Wn i ddim am ba hyd y basa'r gêm honno wedi para tasa'r hen fachgan heb ddŵad yno fel llew rhuadwy a gweiddi: 'Gest ti un?' Ac wrth fy ngweld yn sefyll yn y fan honno yn hurt, 'Tania arno fo. Be ddiawl sy wedi dŵad i ti?'

Gollyngais ergyd o ben fy nghlun a tharo'r Labrador yn ei chwarter ôl. Wnaeth o yr un sŵn ond ei gafael hi dan lusgo ei goes. Gyrrodd fy nhad ergyd arall ar ei ôl, ond yr oedd o wedi mynd yn rhy bell.

Ddaru ni ddim aros i gyfrif ein colledion. I ffwrdd â ni ar ei ôl, achos yr oeddan ni'n gwybod o brofiad fod y maeth yna o fytheuad yn chwannog i waed twym unwaith mae o'n ei flasu o. Erbyn hynny roedd y gola yn dechra dŵad yn gryf, ac yr oeddan ni'n gweld amryw o ddafna coch ar y tyfiant ar ochr y llwybr, ac erbyn hynny roedd ganddo ni syniad go lew i ble roedd y llwtrach yn ein harwain ni.

Pan ddaethon ni at dŷ'r cipar ar y fron, dyna lle'r oedd y ci yn gorfadd ar garreg y drws a dyma fo'n rhoi rhyw nadiad a mynd i mewn i gwt agorad. Roedd y cipar yn dechra mwstro ei hun a ddim yn y gora o dempar, a tasa hi'n dŵad i hynny — doeddan ninna ddim 'chwaith. Felly dyma ni'n rhoi ein gynna o'r neilltu cyn deud yr hanas.

Doedd y dyn ddim yn synnu cymaint at y weithred ag yr oedd o at y gweithredwr. Wrth gwrs roedd y ci yn erfyn ei grefft fel ein rhai ninnau, ond ei fod yn gallu rhoi mwy o sylw i'r anifail, achos doedd ein rhai ni byth yn cael dŵad a'u drewdod i'r tŷ.

Doedd o byth yn rhwym ddyliwn nac yn cal ei gau, a doedd o erioed wedi crwydro o'r blaen, ond yr oedd ei berchennog yn ddigon rhesymol yr adag honno i gyfadda y gall y gora lithro. Y tebygrwydd oedd fod y mwngral marw wedi dŵad heibio yn y nos a'i hudo am ras ac wedi digwydd taro ar ddefaid a rheiny wedi mynd i redag a chael eu herlid. Wedyn cam bychan o hynny ydy dechra cnoi.

Ar wahân, roedd y dyn yn amlwg awydd cadw ein hewyllys da ni dros y tymor bridio adar a'r saethu. Yr oedd yn bosib i ninna wneud colledion iddo fynta. Yn y diwadd cydsyniodd i'r prawf traddodiadol fel meddwyn yn bodloni cael profi ei wynt gan blisman.


Mi ddaru ni hongian y ci â'i ben i lawr o drawst y cwt, ac ymhen dipyn daeth y gwaed oedd yn ei stumog allan drwy ei safn. Doedd yna ddim 'chwanag i'w ddweud. Rhoddodd y cipar damad o gortyn i ni, a ffwrdd â ni adra drwy'r cyfar. Yn y fan honno mewn lle dinabman dyma ni'n crogi'r ci wrth goedan.

Fu yna ddim drwgdeimlad yn dilyn. Terfynwyd yr anffawd heb chwerwder a chynorthwy cynghorwyr nac arbenigwyr ar fywyd gwyllt y maes newydd gyrraedd o rhyw dwll y tu ôl i stryd Coronation, a doedd yna ddim iawndal i'w ddisgwyl ar gyflog cipar. O ganlyniad cadwyd sefydlogrwydd y gymdeithas.

Ac adra â ni a'n gynna ar ein 'sgwydda, ac yr oedd gan Mam de cry ar yr hob, ac mi roddodd joch reit dda o 'rum' yn y cwpanna, a ddaru hi ddim gofyn yr un cwestiwn gwirion.

(Wedi ymddangos gyntaf yn y cylchrawn *Countryman.*)


**GWYN JONES**
**FFENESTRI ERYRI**
**GARTH ISAF, LLANRUG**
**(01286) 650764**
**neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741**
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ *Porches*
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris
12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES



MAE
**SHARON VAUGHAN WILLIAMS**
B.A. (Anrh.) Dip Perf
YN CYMRYD DISGYBLION AM WERSI PIANO, CANU A THEORI.
Cysylltwch â hi yn
YNYS IAGO, PENTIR
**Ffôn: (01248) 353746**

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

**Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390**



*Rhiannon Williams — brenhines y Carnifal eleni.*

Y CARNIFAL. Bydd y Carnifal yn cael ei gynnal ddydd Sadwrn, Gorffennaf 18. Mae aelodau'r pwyllgor yn brysur yn paratoi ar eich cyfer ac yn awyddus i weld cymaint â phosibl yn cymryd rhan yn y cystadlaethau gwisg ffansi.

CLWB FFRINDIAU DOLBADARN. Enillwyr mis Mai — £35: Delyth Roberts, 50 Maes Padarn (70); £25: Mrs Bet Hughes, 18 Stryd yr Wyddfa (156); £15: Gaynor Williams, Glanrafon Bungalows (217); £10: Mrs G. Roberts, Hyfrydle (48); £5: Mrs C. Williams, Rhesdai Cambrian (133).

CYMORTH CRISTNOGOL. Diolch yn fawr iawn i'r casglyddion a fu'n ymweld â chartrefi'r pentref yn ystod Wythnos Cristnogol ym mis Mai. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd arian yn ystod yr wythnos. Casglwyd £562.28. Cynhaliwyd oedfa undebol Cymorth Cristnogol yng Nghapel Coch, nos Sul, Mai 24 gydag aelodau eglwysi'r pentref yn cymryd rhan.

CAPEL COCH. Cafodd plant yr Ysgol Sul eu gwobrwyo am ddysgu'r maes llafur yn y Gymanfa a gynhaliwyd yn Rhiwlas. Llongyfarchiadau i'r rhai a fu'n cystadlu yn Eisteddfod y Pentref a gynhaliwyd yn festri Capel Coch ddydd Sadwrn, Mai 9. Cafodd amryw o blant yr Ysgol Sul hwyl wrth gyflwyno cân actol 'Y Picnic'.

YSGOL DOLBADARN. Roedd yr Ysgol yn fwy gwag nag arfer am ddeuddydd ganol mis Mai gan fod disgyblion Bl. 4 a 5 wedi mynd ar daith i Gaer Efrog. Aeth 50 o blant ar y daith ben bore Iau, Mai 14. Aeth i Ganolfan Yorvik a Chanolfan yr Arc yng nghanol y ddinas y prynhawn hwnnw, a chael cyfle i ddysgu llawer am Oes y Llychlynwyr yn ogystal ag am waith archaeolegwyr. Treuliwyd nos Iau mewn gwesty yng Nghaer Efrog a thrannoeth aed i bentref Danelaw, yn Burton, ychydig filltiroedd y tu allan i'r ddinas. Yno roedd y plant yn camu'n ôl i Oes y Llychlynwyr ac yn treulio diwrnod yn byw yn y pentref gan weithio ar y tir, yn y tai, a gwneud gwaith crochennydd a gwarchod y pentref rhag ymosodwyr. Dyma'r trydydd tro i blant o'r Ysgol fod ar yr ymweliad addysgol hwn. Cafwyd digon o hwyl ac roedd pawb wedi byhafio ac wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Dymuna'r rhieni ddiolch i Mrs Elisabeth Roberts a'r athrawon am wneud y trefniadau a gofalu am y plant a rhoi profiad gwerthfawr iawn iddynt.

CYMANFA. Cynhelir Cymanfa Ganu Hendaduriaeth Arfon yn Capel Coch, nos Sul, Gorffennaf 5, am 6 o'r gloch. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni y noson honno.

CWPAN. Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed Llanberis ar eu buddugoliaeth o 3-0 yn erbyn Llangefni yn rownd derfynol y Cwpan Cookson ar faes Bae Cemaes. Dyma'r tro cyntaf i Lanberis ennill y cwpan hwn a'r tro cyntaf ers naw mlynedd i'r tîm cyntaf ennill tlws. Y ffaith i'r clwb symud i gystadlu ar lefel uwch sy'n gyfrifol am y cyfnod llwm wrth gwrs, ond gobeithio mai dyma fydd y cyntaf o lawer o dlysau dros y tymhorau nesaf. Llongyfarchiadau i aelodau'r ail dîm a gyrhaeddodd rownd derfynol y Cwpan Alves, ond yn anffodus colli o un gôl a wnaethpwyd yn erbyn Mountain Rangers.

PLAS PENGWAITH. Dymunwn wellhad buan i Mrs Mari Pritchard sydd yn Ysbyty Eryri; hefyd Mrs F. Ellis a Mrs Catherine Hughes sydd yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella.

Mae'r cartref oll yn cydymdeimlo â Mrs F. Ellis yn ei phrofedigaeth o golli ei mab, Mr Dafydd Ellis, Y Felinheli.

Mae Mrs Ceinwen Owen wedi symud i fyw yng Nghartref y Foelas, Llanrug a dymunwn hapusrwydd iddi yno. Wedi dod atom am dipyn mae Mrs C. Hughes, Glasinfryn a Mrs F. Ellis, Llanrug.

Fe gafwyd noson ddifyr gyda pharti ieuenctid Capel Salem, Caernarfon gyda'r Parchg Ronald Williams yn arwain. Mrs D. M. Jones oedd wedi trefnu i'w cael i'n diddanu.



*Kelly Marie a Gwenonwy Alun, morynion y Carnifal.*

Nos Wener, 15 Mai, cafwyd noson ddifyr pan werthwyd crochenwaith tlws. Diolch i'r rhai a gefnogodd y noson. Mrs C. Williams oedd wedi trefnu'r noson.

Ddydd Llun, 18 Mai, daeth Heather Jones i roi ambell gân i ni yn y lolfa. Mae Heather yn brysur yn mynd o gwmpas cartrefi Gwynedd a Môn yn rhoi adloniant i'r preswylwyr. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain.

CAPEL JERUSALEM. Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach ar Fai 5ed, o dan lywyddiaeth Hugh R. Jones, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gyda sleidiau o'r adeiladau, yr eglwysi a'r ogofâu Ynys Malta gan y Parchg Gwynfor Williams, gyda lluniaeth ysgafn a sgwrs i ddilyn. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, Mehefil 2il, am 2.15 o'r gloch. Y Parchg Huw Gwynfa Roberts fydd y gŵr gwadd. Croeso cynnes i fwynhau prynhawn difyr.

LLEISIAU LLIWEDD. Dymuna'r aelodau ddiolch i bawb a gefnogodd y Siop Elusen er budd Henoed Gwynedd a Môn. Diolch yn arbennig i Mrs Myra Starkey a Karen Williams am gael defnyddio'r siop a Mrs Stotts am fenthyg y byrddau. Gwnaed elw o £271.62. Enillwyr y raffl oedd Mrs Megan Hughes, Miss Marian Davies, Mrs Dwynewen Roberts.

Diolch hefyd i bawb a noddodd y genod ar eu Taith Gerdded Noddedig er budd Apêl Robert Owen i gael tŷ preswyl dros-dro i deuluoedd yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl. Casglwyd £445 at yr Apêl. Diolch yn fawr i bawb a'n cefnogodd gyda'r ddwy apêl.

UNDEB Y MAMAU. Pnawn dydd Mawrth, 5 Mai, cynhaliwyd y pwyllgor misol yn y Rheithordy. Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mrs Nan Owen. Croesawyd Mr Arwel Jones fel ein siaradwr gwadd ac fe fwynhawyd ei sgwrs am 'Hanes y Bêl Gron'. Hynod o ddiddorol oedd ei atgofion am yr hen gymeriadau oedd yn cymryd rhan bwysig yn y gymdeithas ar y cae ac ar ôl y gêm — y rhan helaeth ohonynt wedi ein gadael bellach — a chyferiodd am y rhai sy'n dal i redeg a chynorthwyo tîm pêl-droed Llanberis bob dydd Sadwrn ar Ffordd Padarn. Hynod o ddiddorol, Arwel.

Anfonwyd cyfarchion am wellhad buan i'r aelodau sydd heb fod yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd; naill ai yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi.

Derbyniwyd cofnodion y pwyllgor blaenorol yn gywir. Edrychwn ymlaen i fis Mehefin pan fydd canghennau Cwm-y-glo a Llanrug yn ymuno â ni.

Enillydd y raffl oedd Mrs Nellie Morris. Diolchodd Mrs Clara Roberts i Mrs Hilda Williams a Mrs Nan Owen am y baned ac, wrth gwrs, i Arwel. Adroddwyd y Gras i orffen.

DIOLCH. Dymuna Alwena Thomas, 8 Rhes y Graig ddiolch o galon i'r teulu a'r ffrindiau oll am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 60. Diolch yn fawr.

Dymuna Heulwen a Trefor Edwards, Stryd Fawr, ddiolch am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod y cyfnod y bu Heulwen yn yr ysbyty ac ar ymddeoliad Trefor wedi bron i ddeugain mlynedd gyda'r Cyngor. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Mrs Myfi Thomas, 2 Bryn Teg ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl iddi ddod adref. Diolch yn fawr.

Dymuna Carys a Tecwyn ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd Tec ar achlysur ei ben-blwydd yn 65 oed ac i Carys tra bu'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Clatterbridge yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Ceinwen ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 60 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.




*Tîm pêl-droed Ysgol Sul Capel Coch a ddaeth yn ail yng Ngornest Chwaraeon yr Ysgolion Sul a gynhaliwyd ym Mhen-y-groes yn ddiweddar.*

# CHWILOTA



## Dinorwig a'r Fachwen

**Cafwyd cryn dipyn o ymateb i'r pigion o draethawd 'Anfedrus' am ardal y Fachwen a Dinorwig. Cefais sgwrs ddiddorol ag Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm-y-glo — un o deulu'r Michaeliaid — ond bydd yn rhaid disgwyl tan y rhifyn nesaf i gael yr hanes hwnnw. Bydd angen chwilota rhywfaint yn yr archifau yng Nghaernarfon i gadarnhau peth o'r wybodaeth a dderbyniwyd ganddo.**

## Y Dinorwig Herald.

Rhif. 12.] DYDD MAWRTH, MEDI 20, 1870. [Pris Dimai.

Trwy gyd-ddigwyddiad, derbyniodd un o'r golygyddion ffotogopi o bapur newydd na chlywais ddim o'i hanes erioed o'r blaen — *Y Dinorwig Herald.* Fe'i hanfonwyd gan Mr J. Evans-Hughes o Leicester. Roedd y newyddiadur gwreiddiol ymhlith papurau ei ddiweddar fodryb, Miss Emily Evans, 4 Water Street, Llanberis.

Mae'n ymddangos mai un ddalen oedd *Y Dinorwig Herald.* Rhif 12 yw'r copi a anfonwyd i'r *Eco,* ond does gen i ddim syniad sawl rhifyn o'r papur a gyhoeddwyd i gyd. Mae'n ymddangos fod y ddalen yn cael ei chyhoeddi yn wythnosol a'i gwerthu am ddimai. Tybed ai papur yn cael ei gyhoeddi yn arbennig i chwarelwyr Dinorwig ydoedd? W. R. Hughes, Ebenezer oedd yn argraffu a chyhoeddi'r papur. Mae'n disgrifio'i hun fel 'Llyfrrwymydd'. Mae Rhif 12 yn rhoi sylw i'r rhyfel rhwng Ffrainc a Phrwsia, a'r cythrwfl yn Rhufain ynglŷn a sefydlu gwlad yr Eidal.

Rhoir gofod bychan yn un gongl i'r ddalen i 'Weinyddiaeth y Garret'. Rhestrir gwahanol swyddi — a'r rheini wedi eu seilio ar swyddi o fewn y Llywodraeth, ond yn anffodus, ni roddir enwau llawn deilyddion y swyddi, dim ond llythrennau cyntaf ac olaf. Gŵr y Sach Gwlân, er enghraifft, oedd Ap T.....n; y Prif Weinidog oedd S....n Y.....y, a'r Gweinidog Rhyfel oedd Pw J....s. Byddai unrhyw wybodaeth am *Y Dinorwig Herald* o ddiddordeb, a gorau oll os oes rhifynnau eraill ar gael. Chwiliwch mewn hen gistiau yn eich stafelloedd sbâr!

Cafwyd ymateb hefyd gan Miss Mair Foulkes, Penisarwaun (gynt o'r Garnedd Wen, Y Fachwen) ac mae hi'n awgrymu mai Wil Rhos y Bêl roes yr enw i'r ffordd o Ben-llyn i Ddinorwig. Dechreuwyd cadw siop yn Rhos y Bêl, a newidiwyd yr enw i Padarn Stores! Dywed Miss Foulkes fod ei nain yn galw'r Fachwen yn Caeau Cochion. Yr esboniad a glywodd gan ei thad am yr enw oedd fod y tir i gyd ar un cyfnod wedi ei orchuddio â rhedyn a bod yr ardal yn edrych yn goch yn yr hydref pan fyddai'r rhedyn yn crino.

### EGLWYS GYMRAEG CHARTERS TOWERS, QUEENSLAND, AWSTRALI

Rai misoedd yn ôl adroddais hanes trigolion o fro'r *Eco* yn 'mudo i Charters Towers yn Awstralia. Mae Clive James o Gaeathro wedi anfon gwybodaeth ychwanegol am yr Achos Cymraeg yn y dref honno. Dyma sydd ganddo i'w ddweud: *'Sefydlwyd Achos Cymreaeg yn y dref yn 1887. I ddechrau bu'n cyfarfod yn yr "Oddfellows Hall", heb weinidog. Nid oedd pregethu, dim ond cyfarfod gweddi ac Ysgol Sul.'* Symudwyd eto, nes o'r diwedd i'r selogion brynu tir ac adeiladu capel. *'Am gyfnod, bu gweinidog, ond erbyn Nadolig 1891 roedd y gwasanaethau dan arweiniad Robert Davies a W. J. Owen. Roedd y gwasanaethau i gyd yn Gymraeg.'* Prin yw'r wybodaeth am yr Achos ar ôl 1891.

*'Nid oes olwg o'r adeilad erbyn heddiw, ond mae'r dref yn enwog o hyd am safon ei chanu.'* Tybed ai effaith y Cymry arloesol o fro'r *Eco* sydd i'w gyfrif am hynny?





# "GORPHWYSFA"

(Rest) FORMERLY

## PEN-Y-PASS HOTEL.

Recently and entirely rebuilt, situated at the top of the picturesque Pass of Llanberis, 1,179 feet above sea level.

Best starting point for climbing the Welsh Alps, the Snowdon Group.

The North or Capel Curig Path just opposite the front door of the Hotel.

Excellent Fishing in Cwm Ffynon Lake (5 minutes' from Hotel) and innumerable streams and tarns for Trout, and Llanberis Lake (30 minutes' drive) for Char.

Tariff on application. Charges moderate. Posting in all its branches.

Telegrams to Nant Peris P.O.

The Hotel is 5 miles from Llanberis Station and 11 miles from Bettws-y-Coed Station.

Bettws-y-Coed to Llanberis and Round Snowdon Coaches pass Hotel daily.

Hot and Cold Baths.

*Proprietors*

**Mr. & Mrs. RAWSON OWEN,**

(*née* PRITCHARD)

GORPHWYSFA HOTEL, LLANBERIS.


### PEN GORFFWYSFA

Anfonodd Eifion Roberts, Llanberis gopi o hysbyseb am Westy Pen Gorffwysfa. Mae'n dyddio o tua 1903. Sylwer fod brawddeg gyntaf yr hysbyseb yn pwysleisio fod y gwesty *'wedi ei ail-adeiladu'.* Mae hefyd yn pwysleisio'r pellter (mewn milltiroedd ac mewn amser) i Lanberis — dim ond hanner awr. Roedd hefyd yn bosibl anfon neu dderbyn telegram yn Swyddfa Bost Nant Peris. Mae Ms Mary Griffith, 21 Caerhun, Bangor (gynt o Nant Peris) yn cofio cael ei hanfon o'r Nant i fyny Bwlch Llanberis i'r gwesty gyda telegram, a hithau'n blentyn 10 oed. Câi swllt ac wyth geiniog am y daith. Roedd hefyd *'yn cael lemonêd a thamaid o gacen gan Mrs Jones, yr house-keeper'.*

Mae ganddi gof plentyn o'r siop ym Mhen Gorffwysfa hefyd, ond *'anaml y byddem yn gweld neb yn y siop; nid oedd yn dwt iawn, a llawer o lwch ynddi!'.*

### SIOP STAR LLANBERIS

Cafwyd benthyg y llun o Siop Star, Llanberis gan Mrs Olwen Llywelyn. Mae'n tybio i'r llun gael ei dynnu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ei modryb, Jane Hughes (wedyn Jones) o Gaeathro yw'r ferch dalaf yn y canol; hi oedd y rheolwraig yno. Bu Jane, neu Siân fel ei gelwid, yn byw yn ddiweddarach ym Mhen-y-groes.

Dywed Olwen fod yr ysgrifen ar gefn y llun yn Saesneg gan mai at ei brawd, Hugh, yr anfonwyd y cerdyn ac yntau'n garcharor rhyfel yn yr Almaen.

Bu Hugh (H. M. Hughes) yn reolwr Siop Co-op, Llanrug am nifer o flynyddoedd.

Ni ŵyr Olwen pwy yw'r bobl eraill sy'n y llun.

### Y MIS NESAF

Bydd parhad o'r wybodaeth am ardaloedd y Fachwen a Dinorwig, a hanes giât anghyffredin o Gwm-y-glo.

Cofiwch anfon unrhyw bwt o wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (01286) 673515.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

PROFEDIGAETH. Ddydd Sadwrn, Mai 2il, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Alan Williams, Rhianfa, Pen-llyn yn 51 mlwydd oed. Bu'r angladd cyhoeddus ar Fai 7fed yng Nghapel M.C. Brynrefail ac yn dilyn ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlir yn ddwys a'i chwaer, Vera, ei frawd yng nghyfraith, Elfyn, a'i Nai, Dewi, yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl ar yr aelwyd ym Mhen-llyn.

CYMANFA DOSBARTH PADARN. Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Ysgoldy, Rhiwlas a daeth cynulliadau da ynghyd i'r ddwy oedfa. Yng nghyfarfod y prynhawn enillodd Anna George, Rhian George, Caryl Jones, Awen Jones, Elen Williams ac Amy Lambert o Ysgol Sul Brynrefail safle yn y dosbarth cyntaf am adrodd eu Maes Llafur. Yn ystod oedfa'r hwyr gwobrwywyd Mr Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth am ei waith gyda'r Maes Llafur yr oedolion a chanwyd tôn o'r *Detholia* o waith Mrs Lowri P. Roberts Williams, Godre'r Coed yn dwyn yr enw 'Caledffrwd' ar emyn o eiddo Mr R. D. Roberts, Y Groeslon sy'n enedigol o Ddeiniolen.

TRINIAETH. Dymunwn wellhad buan i Mrs Hannah Jane Jones, 7 Trem Eilian yn dilyn triniaeth i'w llaw yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Muriel Evans, Cae Gwyddel ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu a llu o ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u ffyddlondeb yn ei chludo yn ôl a blaen i Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri yn ystod gwaeledd ei mam. Mae Mrs Blodwen Evans, sydd hefyd yn gwerthfawrogi yr holl gymwynasau, erbyn hyn yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. Pob dymuniad da iddi.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD. Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri, nos Iau, Mai 14eg. Cadeirydd y noson oedd Mrs Ellen George, Sŵn yr Engan. Roedd y defosiwn dan ofal Mrs Pat Jones, Cae Coch. Y gŵr gwadd oedd Mr Barry Davies, Creigle. Treuliwyd orig ddifyr a hwyliog yn ei gwmni, trwy gymorth sleidiau diddorol, yn trafod ei yrfa a hynny o safbwynt ei berthynas â phobl yn eu hamrywiol amgylchiadau a chefndiroedd. Diolchwyd iddo gan y cadeirydd. paratowyd y lluniaeth gan Bethan Lambert a Dwynwen Williams a diolchwyd iddynt gan Jennie Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mehefin 11eg, pryd y disgwylir Mr Neville Hughes, Bethesda i roi sgwrs.

BRYSIWCH WELLA. Dyna ein dymuniad i Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog yn dilyn cyfnod o archwiliad meddygol yn Ysbyty Gwynedd.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cyfarfu'r gangen leol yn y Festri, nos Lun, Mai 18fed, dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones, Cae Coch. Wedi gair o groeso a darllen y llythyr misol, aed ymlaen at brif waith y noson, sef trafod yr Argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol yn Brighton. I gloi y noson arddangosodd y llywydd nifer o ddulliau i drefnu blodau sych ac yn dilyn cafodd pob aelod gyfle i greu trefniant ei hun. Diolchwyd i'r llywydd am ei gwaith gan Mrs Carol Houston. Paratowyd y baned gan Mrs Eleanor Williams a Mrs Carol Houston a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Hughes. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Pat Jones, oedd Mrs Helen Morris. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 15fed ar ffurf gweithgarwch awyr agored.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Trefn yr oedfaon am fis Mehefin:

7: Mr Ifan Hefin Williams, Caernarfon (5.30)
14: Mr Norman Closs Parry, Treffynnon (5.30)
21: Mr John L. Williams, Bangor (10)
28: **Sul Cymdeithas y Beiblau** (Cangen Deiniolen a'r Cylch)

Cynhelir yr oedfaon yng Nghapel Brynrefail am 2 a 5.30 o'r gloch. Bydd cyfarfod y prynhawn dan nawdd Ysgolion Sul eglwysi'r cylch a'r llywydd fydd Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog.

Cynhelir Cymanfa Ganu'r Hwyr yng nghwmni Côr Meibion Dinas Bangor (Arweinydd: Barry Wynne; Cyfeilydd: Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed). Arweinydd y Gymanfa: Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed. Organydd: Gareth Jones, Llanberis; Llywydd: Gwyn Hefin Jones, Rhandir. Croeso cynnes i bawb.

# CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

ADRAN GYMUNED. Cynhelir y gweithgareddau a ganlyn yn y dyfodol agos:

**Nos Sul, 28 Mehefin:** yn yr Ysgol am 7.30 p.m. Noson o Gân o dan arweiniad Mrs Lowri P. Roberts Williams, Mr Gareth Jones, Parti Aria a phlant yr Ysgol.

**Nos Lun, 29 Mehefin:** Disgo a Gwisg Ffansi. Disgo'r babanod am 6 p.m. a Bl. 2, 3 ac ymlaen, am 7 p.m.

**Nos Fercher, 1 Gorffennaf:** Gêmau Giamocs ar y Cae Chwarae am 6.30.

**Nos Iau, 2 Gorffennaf:** Cwis yn y Fricsan am 8.45 p.m.

**Nos Sadwrn, 4 Gorffennaf:** Noson Gymdeithasol.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau yn Hafan Elen, Llanrug, nos Iau, 14 Mai. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs E. Taylor a Mrs Sandra Hughes. Darllenwyd cofnodion o'r pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Ebrill a thrafodwyd rhai materion. Wedyn cafwyd amser i brynu oddi ar y stondin oedd wedi'i threfnu gan yr aelodau. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs Menna Roberts a Mrs S. Birbeck a rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Mrs Marjorie Roberts. Diolchwyd iddynt gan Miss Meira Williams. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi.

NEWYDDION O'R YSGOL. Mae'n diolch yn fawr unwaith eto i bawb fu'n helpu i gasglu talebau Tesco i ni yn yr ysgol. Cawsom dros 800 ohonynt ac mae hynny'n ein galluogi i gael tair CD newydd i'r cyfrifiadur.

Bu Mrs June Bird, y nyrs ddeintyddol, yn trafod Gofal am y Dannedd gyda phlant yr Adran Iau. Cafodd y plant diwb o bâst dannedd a brwsh newydd ganddi.

Rydym yn anfon ein cofion anwylaf at Mr Sam Jones, Bron Eryri (gŵr Mrs Rhian Jones yr ofalwraig). Mae o wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar ond bellach wedi dod gartref.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Ebrill oedd Mrs Marjorie Smith, Llanrug a Mr Eifion Jones, Cwm-y-glo. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch.

Dros y tri mis diwethaf bu plant Bl. 2-6 yn cael gwersi Addysg Gorfforol gyda'r myfyrwyr yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor. Bu'r holl brofiadau yn hynod werthfawr i'r plant a'r myfyrwyr. Cawsant ddilyn gweithgareddau mewn gymnasteg, chwaraeon a dawns.


CYNGOR CYMUNED LLANRUG

**AR WERTH**

**PERIANT TORRI GWAIR 'Ride-on' HUSQVARN MODEL LT 1000-14**

Chwech gêr - toriad 40"
Wedi gweithio 110 awr yn unig
£2000 yn newydd
Tendrau erbyn 12 Mehefin 1998 i Glerc y Cyngor:
60 Glanffynnon, Llanrug
Caernarfon LL55 4PR
mewn amlen dan sêl a'i farcio:
**'Tendr Peiriant Torri Gwair'**

MAE'R **SAMARIAID** YN GWRANDO YN ABBEY ROAD
**BANGOR (01248) 354646**

**GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO**
**24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos**
**PLUM24CYM**
**Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwms**
**Gwaith cynnal a chadw o bob math**
**Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR**
**Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)**

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR**
**Ffôn/Ffacs: 650291**

**Ar agor** 9-7pm
9-5pm Sadwrn
**Ar Gau** Sul a Mercher



Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?
**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

**Alwyn a Sarah Jones**
**RACCA**
**PENISARWAUN**



★ Blodau ar gyfer pob achlysur
hefyd
★ **Dewis da o Lysiau Fferm**
★ **Wyau *Free Range***
Ar agor saith diwrnod
**870605**
**LLYSIAU AR GYFER PICLO**

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

**Camera yn ngofa! Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

YR YSGOL GYNRADD. Treuliodd Miss Catrin Jones o Lanrug, sy'n fyfyrwraig blwyddyn gyntaf B.Add ym Mhrifysgol Bangor, ychydig o wythnosau ymarfer dysgu gyda Bl. 4. Gobeithio ei bod wedi mwynhau ei hun a dymunir pob llwyddiant iddi ar ei chwrs.

Mai 18fed daeth Nesta Griffiths â gêm 'Cwis I' i'r ysgol a bu'n dangos i Bl. 3 a 5 sut i'w defnyddio. Y mae'r TASA drosodd i CA1 a CA2 ac i ddathlu cafwyd teisen go arbennig a bu plant CA2 yn plannu hadau a phlanhigion yn yr ardd fach.

Dathlwyd pen-blwydd go arbennig i un o'r staff gweinyddol. Cyfansoddwyd cân gan y plant a pherfformiwyd hi amser cinio gyda'r plant wedi eu gwisgo fel staff yr ysgol. Oedd, roedd hwyl a sbri wrth ddathlu pen-blwydd Anti Gwenda!

URDD ADRAN BENTREF. Cynhaliwyd cyngerdd yn y Neuadd Gymuned nos Iau, Mai 21ain. Cafwyd eitemau gan y plant fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir. Diolchir i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

DIOLCH. Dymuna Gwenda Jones, 11 Bryntirion ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau'r ysgol am y llu cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd arbennig.

Y mae Richard Williams, 20 Bryntirion wedi dathlu pen-blwydd go arbennig hefyd a 'run yw ei ddiolch yntau i'w deulu a'i ffrindiau. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

YSGOL SUL BOSRA. Bydd y trip eleni yn mynd i Southport gan fod trip y llynedd wedi bod yn un mor llwyddiannus. Trefnir y trip ar y cyd ag Eglwys y Santes Helen, Sadwrn, 4 Gorffennaf. Pris: oedolion £7; plant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul £3.50. Enwau rhag blaen i Elizabeth Jones, ffôn 872421 neu Ann Paterson 872405.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir y gwasanaethau eleni ym Mrynrefail, ddydd Sul, 29 Mehefin, gyda chyfraniadau'r Ysgolion Sul am 2, a Chymanfa Ganu am 6. Gwneir casgliad yn y ddwy oedfa tuag at Gymdeithas y Beiblau. Tefnir bws a cheir y manylion ymhellach.

GWELLHAD. Da deall fod Dave Paterson wedi cael ailddechrau gweithio wedi triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

POB LWC. Ydi, mae tywydd yr arholiadau wedi cyrraedd! Dymunir pob llwyddiant i bob un ohonoch sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau. Bydd hwyl ar y dathlu wedi'r gwaith caled.

EGLWYS SANTES HELEN

*Ymweliad â Birmingham:* Ar ddydd Gwener, 1 Mai, bu saith o blwyfolion yr eglwys draw i Eglwys St. Pedr, Tile Cross, Birmingham i fod yn rhan o wasanaeth gosod a sefydlu y Parchg Brian Castle, cyn-Ficer Eglwys St Iago Leiaf yn Bethnal Green, Llundain i'w ofalaeth newydd yn Tile Cross. Mae'r Parchg Brian Castle yn ymwelydd cyson â'r plwyf gan fod ei gartref yn Hafan, Penisarwaun. Diolch i'r Warden, Mr Selwyn Griffith, am ddreifio'r bws mini.

*Gŵyl Gorawl Eryri:* Cynhaliwyd yr Ŵyl Gorawl eleni ar ddydd Sul, 17 Mai. Cafwyd cyfarfod ar gyfer plant a phobl ifanc yr Ysgolion Sul yn Eglwys y Santes Fair, Y Felinheli. Enillodd nifer dda o'r plant lleiaf dystysgrif a chanmoliaeth am ddysgu ar lafar waith o'r Maes Llafur a daeth Eurig Roberts, Arwel, yn fuddugol yn y gystadleuaeth ysgrifenedig i ddisgyblion ym mlynyddoedd 9 a 10 gan ennill iddo'i hun Gwpan Coffa yr Offeiriad Alun Jones. Enillodd ei frawd, Huw Tegid, gwpan hefyd am wneud llyfryn ar gyfer disgyblion oed ysgol cynradd ar hanes Solomon. Diolch yn fawr i'r athrawon Ysgol Sul, Mrs Jennifer Hughes a Mrs Louise Evans am eu gwaith da efo'r plant. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus.

*Y Pentecost:* Erbyn i'r rhifyn hwn ymddangos bydd Gŵyl y Pentecost wedi bod a ninnau fel eglwys wedi cael ein cyfeillion o'n gefeill-blwyf yng Nghemaes, Môn, draw atom i wasanaeth arbennig o'r Gosber. Diolch i'r aelodau am ddarparu paned a lluniaeth ysgafn flasus fel arfer.

Dydd Gweddi a Rhodd: Cynhelir eleni ddydd Sul, 14 Mehefin. Bydd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid fel arfer am 10.30 a.m. ac yna gwasanaeth y Gosber am 4.00 p.m. Y pregethwr gwadd fydd y Parchedig Eric Roberts, Rheithor Plwyf Llanllyfni.

*Trip i Lincoln ac Efrog – 10-13 Awst 1998:* Mae'r Parchg Tegid Roberts wedi trefnu trip i'r plwyfolion i Lincoln ac Efrog yn yr wythnos ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol. Erys rhyw hanner dwsin o seddau ar y bws. Os oes diddordeb yna cysylltwch rhag blaen i gael manylion pellach.



*Parti dawnsio gwerin yr Urdd a fu'n perfformio yn y cyngerdd yn y Neuadd Gymuned.*

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant mis Mai a'r enillwyr oedd 1, Rhian Roberts, Pen-y-groes; 2, Alwyn Williams, Pen y Gaer; 3, Dorothy Lamb, 2 Bryn Eglwys.

Gweithgaredd mis Mehefin fydd Taith Gerdded Noddedig yng ngofal Leslie Larsen. Croeso i unrhyw un ymuno â ni i gerdded ein llwybrau cyhoeddus i'w cadw ar agor. Byddwn yn cychwyn o fuarth yr ysgol Gymuned am 6 o'r gloch, nos Wener, 19 Mehefin. Bydd paned yn y Neuadd wedir daith.




SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol
CREDWCH! HOLWCH!
ffonlwch (01286) 830609
– TENEUWCH –
SLIM CHWIM MEWN DIM!

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch CAR. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT · AA Specialist · Retail Motor Industry Federation · RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN CAERNARFON (01286) 673559 BOSCH SERVICE

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: (01286) 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...




BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: (01286) 675175 a 677858

# Holi Mr Eifion Jones, prifathro newydd Ysgol Brynrefail

Erbyn hyn mae Mr Eifion Jones, prifathro Ysgol Brynrefail, wedi bod wrth ei waith yn yr Ysgol am dymor a hanner. Ac yntau wedi cael amser i ymgartrefu nôl yn ei hen ysgol bu'r *Eco* yn ei holi ac yn cael rhywfaint o'i hanes.

Un o blant yr ardal yw Mr Eifion Jones wrth gwrs, wedi'i fagu yn Neiniolen. Derbyniodd ei addysg gynradd yn Ysgol Gwaun Gynfi ac yna bu'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail o fis Medi 1972 hyd Orffennaf 1979. Oddi yno aeth i Brifysgol Loughborough, ond wedi chwe wythnos yn y fan honno penderfynodd drosglwyddo i Goleg y Brifysgol ym Mangor i astudio Mathemateg a Phiseg. Wedi cwblhau ei gwrs gradd, dilynodd gwrs ymarfer dysgu ym Mangor. Ar ddiwedd y cwrs hwnnw cafodd swydd ym mis Medi 1983 yn Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst, lle bu'n gwneud ei ymarfer dysgu y flwyddyn cynt. Bu yno am bum mlynedd cyn symud ym mis Medi 1988 i Ysgol Gyfun Llangefni yn bennaeth yr adran Fathemateg. Wedi pum mlynedd arall, cafodd ei benodi'n ddirprwy-brifathro Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch ym mis Medi 1992. Ac ym mis Ionawr 1998 dechreuodd ar ei waith yn brifathro ei hen ysgol yma ym Mrynrefail.

Wrth adael Ysgol Brynrefail yn 1979 ychydig a feddyliai Eifion Jones y byddai yn dychwelyd yno yn brifathro cyn pen ugain mlynedd. Ei fwriad ar y pryd oedd bod yn beiriannydd cemegol neu beiriannydd suful. Roedd wedi ei dderbyn i Brifysgol Loughborough i ddilyn cwrs felly. Wedi gadael ysgol treuliodd gyfnod o dri mis yn gweithio ar Gynllun Trydan Dinorwig gyda chwmni Thyssens, y cwmni oedd yn gyfrifol am dyllu'r siafft fawr trwy grombil y mynydd. Roedd y profiad hwnnw ynghyd â chwta chwe wythnos o'r cwrs yn Loughboroughyn ddigon i'w argyhoeddi nad oedd am ddilyn gyrfa yn y maes hwnnw wedi'r cwbl. Dyna pam y penderfynodd symud i Fangor a gosod ei fryd ar yrfa fel athro. Roedd hwn yn benderfyniad mawr ar y pryd, yn fwy felly o gofio ei ddiddordeb mewn chwaraeon, gan fod arbenigedd ac enw da Loughborough ym maes chwaraeon wedi bod yn atyniad ychwanegol wrth fentro yno yn y lle cyntaf. Ond bu Eifion Jones yn Loughborough yn ddigon hir i sylwi ar un o'i gydfyfyrwyr yn ymarfer ar y trac athletau — gŵr ifanc o'r enw Sebastian Coe ddaeth yn ddiweddarach yn bencampwr Olympaidd wrth gwrs.

Mae'r prifathro newydd yn falch o gael dod yn ôl i Ysgol Brynrefail. Mae'n ddiolchgar am y croeso a'r dymuniadau da a estynnwyd iddo o'r dechrau. Teimla bod ei adnabyddiaeth o'r ardal a'i phobl o fantais mawr iddo yn ei swydd newydd. Mae dalgylch yr Ysgol yn gwbl gyfarwydd iddo wrth gwrs, a'i adnabyddiaeth o gefndir a gwreiddiau'r fro yn help mawr iddo wrth gychwyn ei waith. Mae Eifion Jones yn bêl-droediwr profiadol ac mae ei gysylltiad â'r timau lleol yn Llanberis ac, yn fwy diweddar, yn Neiniolen wedi sicrhau iddo gysylltiad clòs â'r fro gydol y blynyddoedd diwethaf yma. Erbyn hyn mae ef yn argyhoeddedig bod hynny hefyd o fantais iddo yn ei swydd newydd gan fod y disgyblion yn gallu uniaethu ag ef fel person yn hytrach na'i weld yn unig fel prifathro.

Go brin y byddai'r rhai fu'n gwylio Eifion Jones ar y cae pêl-droed dros y blynyddoedd yn cytuno â'i ddisgrifiad ef ohono'i hun fel, 'chwaraewr heb fawr o ddawn ond digon o ymdrech'. Wedi cychwyn gyda chlwb Llanberis, bu'n chwarae dros Gaernarfon, Bangor, Rhyl, Conwy a Phorthmadog cyn symud nôl i Lanberis ac yna adref i Ddeiniolen. Chwaraeodd i dîm dan 18 oed Cymru a hefyd i dimau Prifysgolion Cymru a



Phrydain. Bu'n hyfforddi timau dan 15 y Gogledd a Chymru, a bu yn yr Unol Daleithiau yn hyfforddi ieuenctid ar bedwar achlysur.

Mae'n awyddus iawn i gydnabod y cymorth a'r cyfleoedd a gafodd yn yr ysgolion y bu ynddynt. Dywed iddo gael arweiniad gwerthfawr a chefnogaeth yn y tair ysgol. Tra yn Amlwch cafodd brofiad hefyd o fod yn aelod o dîm o arolygwyr ysgolion gyda chwmni Cynnal, sy'n rhan o awdurdodau addysg Gwynedd a Môn. Yn y swydd honno bu'n ymweld ag ysgolion fel aelod o'r tîm oedd yn arolygu eu gwaith. o gael y cyfle a'r gefnogaeth ei hunan mae'n ymwybodol o bwysigrwydd bod yn rhan o dîm o fewn ysgol, ac o roi cyfle i bob aelod o'r tîm wneud ei gyfraniad yng ngwaith yr ysgol. Dywed ei fod yn hoffi trefn o fewn yr ysgol, ac mae'n pwysleisio bod disgyblaeth, a hunan-ddisgyblaeth yn fwy arbennig, yn allweddol i ffyniant yr ysgol a'r disgyblion. Mae'n mynnu mai, *'parch* yw'r gair mawr,' a hynny'n golygu parch at eraill, parch at eiddo a pharch at hunan. Dyna'r egwyddorion fydd yn cael eu cyflwyno i'r disgyblion yn y gobaith o'u cael i barchu nid yn unig eu cyfoedion a'u hathrawon ond hefyd eu cymunedau a'u cenedl a'u byd.

Erbyn hyn mae wedi cael ei drdaed dano ym Mrynrefail ac mae'n falch o weld bod llawer o nodweddion yr Ysgol yr un heddiw ag oedden nhw phan oedd yma'n ddisgybl. Mae'n para'n ysgol gartrefol, glòs, gydag ymdeimlad cryf o berthyn i gymdeithas yr ysgol. Mae'n falch hefyd o weld bod yr ysgol yn parhau i ddiogelu'r Gymraeg yn iaith naturiol y disgyblion. Er bod llawer o deuluoedd di-Gymraeg wedi ymgartrefu yn y fro dros y blynyddoedd, mae 95% o'r disgyblion yn rhugl eu Cymraeg. Mae llawer o'r clod am hyn i'w briodoli i waith yr ysgolion cynradd, a gwêl y prifathro newydd mai rhan o'r sialens sy'n ei wynebu yw adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd yn y sector cynradd. Mae hefyd yn falch o gydnabod mai un o lwyddiannau mawr y blynyddoedd diwethaf ym Mrynrefail fu'r cynnydd a wnaed o ran darparu addysg fodern o ansawdd uchel iawn i'r disgyblion, a hynny yn glod mawr i staff yr ysgol. Y nod yn awr yw adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd yn ddiweddar. Mae'r prifathro yn cydnabod ei fod yn edrych ar yr ysgol o safbwynt rhiant hefyd. Mae ei feibion, Gareth sy'n 10 oed, a Siôn sy'n 7 oed, yn ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Llanrug ar hyn o bryd, a gŵyr eu tad mai rhan o'i gyfrifoldeb ef fydd gwneud yn siŵr y bydd Ysgol Brynrefail yn parhau i adeiladu ar y sylfeini addysgol cadarn a osodwyd yn ysgolion cynradd y dalgylch er mwyn cynnig yr addysg orau posibl iddynt hwy a'u tebyg yn ystod y blynyddoedd sy'n dod.

Yng nghanol yr holl sôn am gynnydd a llwyddiant ym myd addysg y dyddiau hyn roedd yn chwa o awel iach i glywed Mr Eifion Jones yn cyfeirio at y ffaith fod staff yr ysgol yn ymffrostio yn llwyddiant unigolion yn hytrach na siarad yn nhermau canrannau a chynghreiriau perfformiad, ac yn y blaen. Y disgyblion unigol a'u lles a'u datblygiad a'u llwyddiant sy'n bwysig.

Nid yw'n rhy hwyr, gobeithio, i ni ddymuino'n dda i Mr Eifion Jones yn ei swydd newydd. Diolch iddo hefyd am adfer y traddodiad o anfon newyddion yr ysgol i'r *Eco*. Rydym yn falch o roi sylw i'r ysgol gan wybod hefyd y gall hynny fod yn ffordd o ennyn diddordeb cenhedlaeth newydd o ddarllenwyr a chyfranwyr yn y papur hwn a'i gynnwys.

Pob dymuniad da
oddi wrth yr Eco
i'r holl ddisgyblion
sy'n gadael yr ysgol
eleni
ac i'r rhai
sy'n sefyll arholiadau


**CRONFA GOFFA R. H. OWEN**

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod.

Ceir manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

JOHN H. HUGHES
TAN Y CLOGWYN, LLANBERIS
GWYNEDD LL55 4LF
Ffôn: (01286) 871562

Y Ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd **erbyn 31 AWST 1998.**
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.

## NEWYDDION YSGOL BRYNREFAIL

Mae'r tymor braf a gawsom yn ddiweddar yn brawf bod tymor yr arholiadau wedi cyrraedd! Dymunidau gorau i'r llu o ddisgyblion fydd yn chwysu drwu eu arholiadau TGAU a Lefel A.

Soniwyd eisoes am lwyddiant Bethan Williams yn ennill Cadair Eisteddfod yr Ysgol. Aeth ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llŷn ac Eifionydd. Enillodd y drydedd wobr yng nghystadleuaeth y gerdd ddychanol. Llongyfarchiadau iddi.

Ddechrau'r mis bu Kelly Williams, Zoe Pritchard, Rhian Roberts a Catrin Stokes draw yng Ngorsaf Dân Caernarfon. Roeddent yn cynrychioli'r Ysgol yn y Cwis Diogelwch Tân a drefnir yn flynyddol gan y Frigad Dân. Yn anffodus ni allodd pumed aelod y tîm, Steven Williams, fod yn bresennol gan ei fod wedi cael anaf wrth chwarae pêl-droed. Wedi ymdrech 'ymfflamychol' cipiwyd y drydedd wobr.

* * *

Ddydd Mawrth, Ebrill 27, cafodd disgyblion Blwyddyn 7 gyfle i fynd i weld Cwmni Blue Silver yn perfformio 'Y Pla Du' yn neuadd Ysgol Brynrefail. Llwyddodd y cwmni i gyflwyno'r hanes yn fywiog a diddorol.

Cafwyd sawl golygfa yn dangos fel yr effeithiodd y Pla Du ar deuluoedd ac roedd y perfformiad yn llwyddo i wneud i ni sylweddoli pa mor ddifrifol oedd y sefyllfa. Eto, er mor ddifrifol oedd y pwnc, roedd rhai rhannau ysgafn hefyd.

Rydw i'n meddwl ei fod yn syniad da iawn i ddysgu hanes inni mewn ffordd ddramatig. Edrychaf ymlaen i weld perfformiad nesaf y cwmni.

GERAINT IWAN 7I

## Tîm Rygbi Merched

Gym-shild. Styds. Brwdfrydedd. Roedden ni'n barod i herio genod y Bala yn y gêm hir-ddisgwyliedig o RYGBI. Gwisgodd y pymtheg ohonom ein crysau glas newydd gyda logo 'Ffenestri Celtic', ein noddwyr, mewn llythrennau bras ar y frest. Cyn pen dim, cyn inni gael cyfle i sylweddoli — roeddem ar y cae yn syllu ar ein cewri o wrthwynebwyr, sef ein gelynion pennaf am yr awr nesaf.

Tiwniodd ein clustiau i dôn gron ein cefnogwyr a'n hyfforddwyr . . . 'C'mon Bryrefs! Taclwch nhw genod! Pasiwch y bêl! Gwylia hi! . . . BANG!

'Doctor, dŵr? . . .'

Awr o wthio, taclo a phasio egniol gan y dau dîm.

Cais ar ôl cais . . . i Ysgol y Berwyn!

Anaf ar ôl anaf . . . i Ysgol Brynrefail!

Ar ddiwedd y gêm cerddodd pymtheg o goesau cleisiog oddi ar y cae a phawb yn ddistaw bach yn nyrsio eu balchder clwyfedig. Beth yw'r ots os mai 48-0 oedd y canlyniad i'r awr o wthio, taclo a phasio — yn sicr nid oedd yn adlewyrchiad o berfformiad medrus y tîm. Hyd yn oed pan oedd tensiwn ar ei uchaf — llwyddasom i gydweithio gyda'n gilydd. Edrychwn ymlaen i groesawu'r Bala i'n tiriogaeth ein hunain, hwyrach y daw awyr iach Eryri â rhywfaint o lwc inni!

LLINOS WILLIAMS (ar ran y tîm)

## Mabolgampau'r Urdd



*Y rhai fu'n cynrychioli'r ysgol ym Mabolgampau'r Urdd.*



*Disgyblion y pumed dosbarth yn dathlu diwrnod ola'r tymor.*

## Potiwrs o Fri



Bu bron i dîm snwcer dan 17 Llanrug fod yn bencampwyr Gwynedd. Collasant o bedair ffrâm i dair mewn gêm hynod o glòs yn erbyn Brynsiencyn yn ffeinal y gystadleuaeth. I gyrraedd y ffeinal fe gurwyd Llanfairpwll a Bangor. Cynhaliwyd y ffeinal yng Nghaernarfon ac fe gyflwynwyd y tlysau gan Mathew Stevens, y chwaraewr proffesiynol o Gaerfyrddin. Aelodau'r tîm yw Rheon Parry, Gwion Iwan, Robin Gardiner, Mathew Roberts, Iwan Pritchard a Gavin Jones. Nid oedd Daniel Fletcher ar gael pan dynnwyd y llun.



EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill
Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833




GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

**Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115**

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Mary Grace Williams, Llain-yr-ardd ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd yn eu profedigaeth ddiweddar. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol o £450 a drosglwyddwyd i gronfa ymchwil cryd-cymalau. Diolch arbennig i'w ffrindiau a fu mor ffyddlon iddi, ac i holl staff Cartref Pengwaith, Llanberis.

Dymuna Mrs Sheila Roberts ddiolch o galon i staff, plant a rhieni Ysgol Bethel am y rhodd anrhydeddus a'r dymuniadau du ar achlysur ei ymddeoliad yn ddiweddar. Hoffai hefyd ddiolch yn fawr am y cyfarfod arbennig a drefnwyd yn yr Ysgol i gyflwyno'r anrhegion iddi.

CYDYMDEIMLO. Ddydd Sadwrn, Mai 16, wedi cystudd blin, bu farw Dafydd Williams, Bro Rhos. Estynnir pob cydymdeimlad i Mona, Medwen, Dylan a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

NOSON GOFFI. Nos Iau, Mai 14, cynhaliwyd noson goffi yn festri Cysegr er budd y capel a Chymorth Cristnogol. Gwnaed elw o £190 ac fe'i rhennir yn gyfartal rhwng Y Cysegr a Chymorth Cristnogol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r noson ac i'r chwiorydd am wneud y trefniadau.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr mis Ebrill oedd £20: Katherine Jones, Y Ddôlwen (21); £10: Olwen Jones, 5 Stad Eryri (81); £5 yr un: Ceri Evans, Parciau Rhos (194); Wyn Morris, Fachell (136); Gwyndaf Jones, Tŷ Gwyn (203); John Williams, Tyddyn Difyr (104); Huw Davies, Ponciau, Llangefni (123); Huw Williams, Cefn Gwyn (69); Eryl Roberts, Bryn Rhedyn (67); Dafydd Jones, 10 Tan-y-buarth (107).

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, Mai 19, daeth tymor y Gymdeithas i ben gyda thaith ddirgel a chinio. Ar noson hyfryd cafwyd siwrnai ddifyr i Fôn gyda phryd blasus yng Ngwesty Lastra Farm, Amlwch. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth i weithgaredd y Gymdeithas ac yn arbennig i Goronwy Jones am drefnu'r noson gan y llywydd, Llinos Williams.

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlwn ag Anwen Jones, Bro Dawel, Stad Rhos-lan yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Alwena Williams, Cartref Melys, 1 Ffordd Glanffynnon, Llanrug yn ddisymwth.

MERCHED Y WAWR. Treuliwyd cyfarfod mis Mai yng nghwmni Edwina Morris, Treflys gyda help llaw gan Ann Lewis a Sharon Quinn, yn arddangos gosod blodau. Yna cafodd yr aelodau i gyd gyfle i wneud gosodiad bychan o flodau. Cawsom noson gartrefol a mynegwyd diolchiadau gan Eirlys Sharpe. Darparwyd y te gan Deilwen Hughes a Gwyneth Williams, ac enillwyd y raffl gan Gwyneth Jones.

Llongyfarchwyd Gwyneth Price a Margaret Williams ar ddod yn neiniau, a da oed gweld yr ysgrifenyddes, June Owen, wedi gwella. Dymunwyd adferiad buan i Arfon, gŵr Siân Hughes, yn dilyn damwain. Darllenodd Deilwen Hughes lythyr a oedd wedi ei dderbyn gan Megan Roberts, Llywydd y Rhanbarth, yn diolch am gyfraniad y Côr i'r noson werin. Bydd Glenys Grifith ac Eirlys Williams yn derbyn cacennau nos Wener, 5 Mehefin, tuag at fore coffi'r Pwyllgor Anabl fydd yn cael ei gynnal yng Nghaernarfon fore Sadwrn, 6 Mehefin. Cynhelir noson gan bwyllgor Celf a Chrefft yn yr Aelwyd yng Nghaernarfon ar nos Fercher, 17 Mehefin. Bydd aelodau'r gangen yn casglu tuag at Apêl y Galon yn ystod mis Mehefin.

Diolchodd y Llywydd, Rita Dauncey Williams, i bawb oedd wedi cefnogi'r cyfarfodydd ar hyd y flwyddyn, gan fynegi diolch arbennig i June yr ysgrifenyddes a Nan y drysoryddes. Dymunodd yn dda i'r pwyllgor ar gyfer 1998/89 – Llywydd: Anne Elis; Is-lywydd: Ann Lewis; Ysgrifennydd: Margaret Rees; Is-ysgrifennydd: Sharon Quinn; Trysorydd: Margaret Williams; Is-drysorydd: Edwina Morris. Pwyllgor: Deilwen Hughes, Sheila Roberts, Nora Parry, Gwyneth Jones, Enid Williams, June Owen. Bydd y tymor yn gorffen gydag ymweliad â Bowlio Deg yn Llandudno ac yna pryd o fwyd mewn gwesty ym Mochdre ar nos Fercher, 10 Mehefin.



*Pwyllgor Merched y Wawr 1998-99.*

TRIP Y CYSEGR. Eleni bydd trip yr Ysgol Sul yn mynd i'r Rhyl ddydd Sadwrn, 4 Gorffennaf. Fe anfonir manylion i aelodau'r Ysgol Sul maes o law ond os oes rhywun arall â diddordeb mewn dod hefo'r trip dylent gysylltu ag un o athrawon yr Ysgol Sul.

COFIO. yn rhifyn 3 Ebrill o'r *Goleuad* cyhoeddwyd cerdd o waith Dafydd Islwyn er cof am Mrs Sally Hughes, Bro Rhos. Er na ofynnwyd am ganiatâd Dafydd i'w chynnwys yn yr *Eco* rwy'n siŵr y byddai'n fwy na bodlon rhannu'r deyrnged hefo darllenwyr yr *Eco:*

*COFIO CYMDOGES*

*Culach ers diwedd Awst*
*yw llwybr y ffyddloniaid*
*o Fro Rhos i fyny i'r Cysegr.*

*O Sul i Sul*
*cyn dyfod y dyddiau blin*
*rhoddodd y dawelaf o'r ffyddloniaid*
*anrhydedd Ei Enw i'r Arglwydd*
*yng Nghysegr.*

*O ddydd i ddydd ym Mro Rhos*
*heb siw na miw*
*ymhlith ei chymdogion*
*ni chollodd ei gafael*
*ar deyrngarwch a ffyddlondeb*
*i gyfiawnhau ei chred*
*a'i hysbrydolai i fynychu'r Cysegr.*

*A dyddiau gweithredu yr Efengyl*
*wrth eich pwysau*
*yn dirwyn i ben*
*culhau mae'r llwybr*
*o Fro Rhos i'r Cysegr.*

PLYGU'R ECO. Tro Bethel ydi plygu'r *Eco* y tro nesaf. Gobeithio y ceir criw go dda eto i'r Neuadd, nos Iau, 2 Gorffennaf, i helpu gyda'r gwaith.



*Rhai o'r criw a ddaeth i'r noson goffi yn y Cysegr.*

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

**Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?**
**YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);**
**YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu**
**YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)**

**Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH**
**Andre (Bethel/Llanberis)**
**Bryn (Môn)**
**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**
**John Eifion (Penisarwaun)**
**CDH**
**Ymgynghorwyr Ariannol**
**Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)**
**Ffôn: (01248) 355055**

**DAFYDD OWEN**
**TRYDANWR**
Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron
Aelod o'r NICEIC – National Inspection Council for Electrical Installation Contracting – APPROVED CONTRACTOR
**11 Rhes Faenol**
**LLANBERIS**
**Ffôn: (01286) 871680**



**ELLIS WYN**
**SIOP Y BARBWR, CAERNARFON . . .**
- **Rŵan wedi ailagor yn YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PLAS, CAERNARFON**
- **Hefyd yn galw yn eich cartref**
- **Ffoniwch am apwyntiad**

**678963 (GARTREF) 0411 457215 (SYMUDOL)**

**GARTH MAELOG**
**PET CENTRE AND GROOMING SALON**
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr
**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**

# DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Betty Peris Roberts, 11 Mae Eilian sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Glan Clwyd wedi iddi dderbyn llawdriniaeth. Da yw deall ei bod yn gwella o ddydd i ddydd a gobeithio y cawn ei gweld adref yn reit fuan. Da clywed hefyd fod Manon Clarke, Foel Cottage wedi cael dod adref erbyn hyn wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Da yw deall ei bod hithau'n gwella.

Gobeithio y bydd i'r ddwy gael llwyr iachad ac y cawn fwynhau eu cwmni'n fuan iawn.

DIOLCH. Dymuna Manon Ebrillwen Clarke, Foel Cottage ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch arbennig i'w ffrind pennaf, Sophia, ac i staf Ward Minffordd. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Cledwyn, Rhian a Berwyn, priod a phlant y ddiweddar Jean Griffiths, Ystum Iwerddon, Llangristiolus ddiolch i bawb am y rhoddion ariannol o £1,300 a gasglwyd er cof am Jean. Diolch am bob caredigrwydd sydd wedi bod o gymorth iddynt fel teulu yn eu galar a'u hiraeth. Diolch i bawb.

CYMANFAOEDD. Cynhaliwyd Cymanfa Dosbarth Padarn (M.C.) yn Rhiwlas ar Sul, 1 Mai. Arweinydd y prynhawn oedd Mr Humphrey Jones, Rhiwlas ac arweinydd y nos oedd Mr Goronwy Jones, Cysegr. Fe ddaeth plant yr Ysgol Sul yma yn Ninorwig i gyd i'r dosbarth cyntaf, sef: dan 4 oed: Mared Mererid Morris; dan 5: Gwenno Morris; dan 8: Elin Ann Morris a Sioned Mair Phillips; dan 10: Rhian Wyn Morris a Donna Louise Phillips; dan 12: Ceri Bryn Morris; oedolion: Mrs Betty Peris Roberts a Miss Marian Jones. Llongyfarchiadau i chwi'r plant a daliwch ati.

Cynhaliwyd Cymanfa y Bedyddwyr hefyd ar y Sul cyntaf o Fai ym Mhen-y-groes a dyma enwau'r rhai lwyddodd i ennill seren aur ar eu tystysgrifau yn yr arholiad llafar: Dafydd, Manon a Bleddyn Clarke, Gwilym, Gryffydd a Megan Jones, Einon ac Elen Morris. Da iawn chi blant. Diolch i'r rhai a roes o'u hamser i'w dysgu.

Cymerodd Helen Corless ran hefyd mewn Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymanfa Arfon.

OEDFA UNDEBOL. Ar Sul, 10 Mai, bu aelodau Eglwys M.C. Dinorwig ymuno ag aelodau Sardis, yn dilyn marwolaeth sydyn y Dr Gwilym Arthur Jones, Penrhos, Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf fel eglwys i'w wraig a'i blant yn eu galar a'u hiraeth. Colled na fydd modd ei llenwi. Diolchwn am gael ei adnabod a gwrando ar ei genadwri.

MARWOLAETH. Syfrandwyd aelodau Sardis a'r ardal pan ddaeth y newydd trist am farwolaeth John Elwyn Thomas ddydd Sul, 19 Ebrill. Er mai yn Rhydfadog, Deiniolen yr oedd yn byw ers rhai blynyddoedd yr oedd yn dal i gael ei adnabod fel John Bwlch Gwynt. Yr oedd y nifer fawr a oedd yn bresennol yn Sardis ddydd ei angladd yn tystio i'r parch at un a fu'n gyfaill ffyddlon i lawer. Fel y dywedodd ei weinidog, y Parchg. Olaf Davies, yr oedd pobl ei filltir sgwâr wedi dod ynghyd i dalu'r deyrnged olaf iddo. Er na chaniataodd ei iechyd iddo ddod i'r capel ers peth amser, am y capel y byddai ei sgwrs ac yr oedd ganddo feddwl uchel o'i swydd fel arweinydd y gân yno. Canu oedd ei brif ddiddordeb – gwrando canu, a chanu ei hun. Rhoddodd wasanaeth clodwiw i Sardis ac mae colli aelod mor ymroddgar yn golled fawr. Cydymdeimlwn â'r plant a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Glyn Tomos, mab Mrs Alice Thomas a'r diweddar Hugh Thomas, 1 Bro Elidir ar ei ddyweddïad â Rhian Eluned o Dalsarnau. Dymuniadau gorau gan y ddau deulu ar yr achlysur hapus.


AM OFFER TŶ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491


# Eisteddfod Dinorwig

Wedi'r holl dreialon (gohirio oherwydd y tywydd garw) braf yw cael dweud fod yr Eisteddfod wedi'i chynnal nos Fawrth, 28 Ebrill, a hynny ar noson fendigedig o wanwyn. Roedd y Ganolfan yn llawn ac fe fu llwyddiant mawr ar y cystadlu brwd. Y beirniaid eleni oedd — Llenyddiaeth: Y Prfardd Meirion McIntyre Huws; Cerdd: Mr Arwel Jones; Llefaru: Mrs Meira Turner; Coginio: Mrs Ann Dearn; Celf a Chrefft: Mr A. P. Dearn. Y Llywydd oedd Mr Glyn Tomos, Caernarfon a diolchwn iddo am ei rodd anrhydeddus i gronfa'r Eisteddfod. Arweiniwyd yr Eisteddfod gan Mr Evan Bryn Roberts a Miss Jennifer Corless a Mrs Olwen Bryn Hughes oedd yn cyfeilio. Dyma'r canlyniadau:

GWAITH CARTREF

Gorffen Limrig: 1, Alan Wyn Roberts, Brynsiencyn (Tan-y-fron gynt); 2, Mrs Megan Morris, Minffordd; 3, Mrs Joyce Jones, Llanrug (Tal-y-braich gynt). Llinell Goll: 1, Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi House; 2, Miss Nellie Wyn Jones, Ty'n y Fawnog; 3, Mrs Megan Morris, Minffordd. Llunio brawddeg allan o air: 1, Miss Nellie Wyn Jones, Ty'n y Fawnog; 2, Mrs Joyce Jones, Llanrug; 3, Mr Alan Wyn Roberts, Brynsiencyn. Parodi: 1, Mrs Megan Morris, Minffordd; 2, Mr Alan Wyn Roberts, Brynsiencyn; 3, Miss Nellie Wyn Jones, Ty'n y Fawnog. Straeon o'r Chwarel: 1, Mr Andrew Griffith, Tan-y-bwlch.

Coginio — oedolion: 1, Mrs Alwen Jones, Llanrug (Cefn Coch gynt); 2, Mrs Marian Griffith, Bryn Sardis; cydradd 3: Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian; Mrs Alice Griffith, Tan-y-bwlch; Mrs Margaret Faulker, Fron Dirion. Coginio — plant: ; Catrin Griffith, Bryn Sardis; 2, Mannon Jones, Deiniolen; 3, Bonsli, Deiniolen.

Arlunio dan 12: 1, Sioned Mair Phillips, 12 Maes Eilian; 2, Rhian Wyn Morris, Brynrefail; 3, Ceri Bryn Morris, Brynrefail. Arlunio dan 10: 1, Gwenno Morris, Tŷ Capel M.C.; 2, Elin Wyn Morris, Brynrefail; 3, Mannon Jones a Bronwen, Deiniolen. Arlunio dan 5: 1, Gwilym Griffiths, Bronallt; 2, Mared Mererid Morris, Brynrefail; 3, Gwilym Griffiths, Bronallt. Celf a Chrefft: 1, Mrs Marian Griffiths, Bryn Sardis; 2 a 3, Mr Iolo Griffith, Llanberis. Gwaith llechen: 1, Mrs Ceridwen Williams, Llanrug (Tŷ Capel gynt). Gwaith coed: 1, Mr Eurwyn Morris, Bangor (Minffordd gynt).

CYSTADLAETHAU LLWYFAN

Adrodd:

Dan 5: 1, Mared Mererid Morris, Brynrefail. Dan 7: 1, Ffion Jones, Deiniolen; 2, Elin Ann Morris, Brynrefail; 3, Gwenno Morris, Tŷ Capel. Dan 9: 1, Sioned Mair Phillips, 12 Maes Eilian; 2, Rhian Wyn Morris, Brynrefail; 3, Mannon Jones, Deiniolen. Dan 12: 1, Donna Louise Phillips, 12 Maes Eilian. Adrodd i ddysgwyr: Alex (Dinorwig). Darllen i ddysgwyr: 1, Clodia White, Islwyn. Sgets: 1, Nellie Wyn, Alice ac Andrew; 2, Parti Jennie Vaughan.

Canu:

Dan 5: 1, Mared Mererid Morris, Brynrefail. Dan 7: 1, Gwenno Morris, Tŷ Capel M.C.; 2, Elin Ann Morris, Brynrefail. Dan 9: 1, Mannon Jones, Deiniolen; 2, Rhian Wyn Morris, Brynrefail; 3, Sioned Mair Phillips a Bronwen. Dan 12: Donna Louise Phillips, 12 Maes Eilian. Emyn dros 50: 1, Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian. Deuawd: 1, Nellie Wyn Jones ac Alice Griffith; 2, Evan Bryn Roberts a Betty Peris Roberts; 3, Olwen Bryn Hughes a Betty Peris Roberts. Pedwarawd: 1, Mared, Elin, Rhin a Ceri Morris, Brynrefail; 2, Sardis. Unawd: 1, Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian; 2, Carol Williams, Pant Sardis. Côr: 1, Parti Sardis.

Talwyd y diolchiadau gan Miss Marian Jones, trefnydd yr eisteddfod, a charem ddiolch unwaith eto i'r cyfeillion o Ddeiniolen am ein cefnogi. Diolch i Mr Ieuan Williams am redeg bws yn ôl ac ymlaen i'w hebrwng yn rhad ac am ddim — diolch yn fawr iawn, Ieuan.


MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales) Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE Concern

INSURANCE SERVICES

All our profits support the work of Age Concern

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

**Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556**

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Delyth Jones, Hafod y Rhug, a Kailey Jones, Cynefin ar ddathlu eu pen-blwydd yn un ar hugain oed.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Wena Lyn, 5 Ael-y-bryn ar lwyddo yn yr arholiad piano, gradd 1, gyda theilyngdod; ac i Ceri Meredydd Williams, Stad Tŷ Hen ar lwyddo yn yr arholiad piano, gradd 2, gyda theilyngdod.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Irene Roberts, Pant Teg yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

Dymuna John, Irene, Rhys a Rhodri ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist o golli tad a thaid annwyl ym Mhenllyn.

Cydymdeimlwn â Mr Gwilym Hughes, Bryn Peris yn ei brofedigaeth o golli ei frawd.

Cydymdeimlwn hefyd â Phil Lowe, Gwylfa yn ei brofedigaeth o golli ei dad.

GARTEF O'R YSBYTY. Yn ystod y mis bu'n rhaid i Mr Elfed Roberts, Dwyros, a Mrs Mainwaring, Tu Ucha'r Ffordd, dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan i'r ddau.

DATHLU PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Arthur Ellis, Min y Nant ar ddathlu eu Priodas Rhuddem yn ddiweddar.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Marian Wyn Jones, Y Foel, gartref o'r ysbyty. Dymunwn wellhad llwyr a buan ichi, Marian.

LLONGYFARCHIADAU i Peter Greasley ar gael ei ddewis i gynrychioli Cymru i 'sgota yn Iwerddon.

DIOLCH. Dymuna Terence a Dennise, 4 Bryn Golau ddiolch am y caredigrwydd a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch fach.

Dymuna Eric, Rhian a Fflur, 22 Tref Eilian ddiolch i'w perthnasau, teulu, cymdogion a ffrindiau am bob cymwynas a gawsant fel teulu yn ystod arhosiad Eric yn yr ysbyty am saith wythnos yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

ENILLWYR CLWB 300 mis Ebrill – £40: Mrs Hilda Bradshaw, Castle View; £25: Mr I. Bracegirdle, 2 Bro Waun; £10: Mr Alan Owen, 9 Tŷ Hen.


**Royal Victoria Hotel**

**LLANBERIS**

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

**Ffôn: (01286) 870253**


# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

TYNNWR LLUNIAU. Enillydd gwobr Clwb Camera Caernarfon am lun gorau'r flwyddyn eleni oedd Richard Jones, Tryfan. Cyflwynwyd y darian iddo gan Bobby Haines yn ystod cinio blynyddol y Clwb.

CEFNOGWR Y POST. Braf oedd clywed llais Mr Richard Roberts, Cefn Rhos ar y rhaglen 'Y Post Cyntaf', ar Radio Cymru yn ganmol gwasnaeth is-lythyrdy yng Nghaernarfon. Fel y dywedwyd gan Mr Roberts mae'r swyddfa bost yng Nghaeathro wedi cau erstalwm. A oes busnes yn y pentref sy'n fodlon cynnig cartref i gownter Swyddfa Post?

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod y mis:

7: Parchg W. R. Williams (2)
14: Mr John Roberts (2)
21: Parchg W. R. Williams (10)
28: (Pentecost) Parchg Trefor Jones (2).

Croeso cynnes i bawb.

DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL. Gwelwyd cyfweliad gyda T. Elwyn Griffiths, Erw Wen ynglŷn â sefydliad 'Undeb Cymry a'r Byd' ac am brofiadau'r milwyr Cymreig yn yr Aifft yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd y cyfweliad yn rhan o raglen a recordiwyd yng Nghapel Cymraeg Birmingham.

PIANO – AM DDIM! Os oes rhywun yn fodlon cynnig cartref i'r piano a oed yn y Festri dylid cysylltu â Tim neu Jane Lloyd, Bodawel.

NEWID ENW. Braf yw gweld yr enw Cymraeg gwreiddiol wedi'i ddychwelyd ar un o'n cartrefi. Unwaith eto mae'r giât ar waelod y rhodfa i fyny at y tŷ yn dangos mai 'Fron Deg' ydyw. Llongyfarchiadau i Julie a Dafydd Morris. Gan fod yna dai eraill yn ardal sy'n cario enwau estronol, Saesneg, beth am dorri gair gyda'r perchnogion gan geisio eu darbwyllo i fabwysiadu enwau Cymraeg.

CLWB RYGBI CAERNARFON. Llongyfarchiadau i Arwel Griffiths, Annedd ar gael ei enwi – yn ystod cinio blynyddol y clwb – yr unig chwaraewr a fu'n chwarae pob Sadwrn yn ystod y tymor. Yn adran iau'r Clwb mae Keith a Clayton Spooner, 2 Bryn y Gof wedi disgleirio yn ystod y tymor.

ENILLWYR y Dynfa Fisol Pwyllgor y Cae Chwarae am fis Mai oedd – £40: Aaron Evans, Llecyn Clyd (99); £25: Graham Hughes, 10 Tai Glangwna (66); £15: Geraint Owen, 17 Tai Glangwna (45); £5: Steve a Lynn Rees, Penlôn (61).

## ADFYWIO BRO

Dyna ddrafft cyntaf o Arolwg Bro Waunfawr a Chaeathro wedi'i asesu'n fanwl iawn gan y Grŵp Llywio! Y cam nesaf fydd ychwanegu'r newidiadau a gyrru copi i aelodau'r grwpiau amgylchedd, hamdden a busnes iddynt hwy gael cyfle i gynnig unrhyw sylwadau. Cynhelir cyfarfod â'r tri grŵp cyfan nos Iau, 4 Mehefin, i gael barn pawb ar yr holiadur ac yna anelu at ddechrau Fehefin ar gyfer ei ddosbarthu. Rhybudd ymlaen llaw i'r timau dosbarthu: bydd angen ymweld ag oddeutu 1,200 o gartrefi, felly, anghofiwch Ras yr Wyddfa, dyma'r gamp fydd rhaid ymarfer ar ei chyfer eleni!

Cofiwch, os oes gennych chi syniadau ar gyfer posiectau cymunedol ym mro Gwyrfai, neu unrhyw beth arall yr hoffech ei drafod bydd Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfai, yn fwy na pharod i gynnig arweiniad. Mae'n hawdd cysylltu ag Eirian, dim ond galwad ffôn ar (01286) 650779 neu galwch i'w gweld yng Nghanolfan Gymunedol Waunfawr a gwnewch y mwyaf o'ch Gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.


**Cynrychiolwyr Gwasanaethau Cwsmeriaid**

Llawn Amser

Edrych am swydd newydd? . . .

Byddai'n well i chi siarad a ni NAWR!

. . . Ond dim ond os ydych yn:

- Frwdfrydig
- Hyblyg
- Positif
- Cyfathrebydd a gwrandawr da
- Person sy'n mwynhau gweithio mewn amgylchedd deinamig, llawn her


A gewch eich denu gan gyflogwr sy'n:

- Agored a gonest?
- Trin pobl fel pobl, nid rhifau?
- Darparu hyfforddiant heb ei ail?
- Cynnig cyflog a phecyn buddiannau cystadleuol?

Lleolir Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Banc Midland yn Abertawe, ac mae ynddi swyddi gwag i bobl sydd a'r ymroddiad i gyflwyno gwasanaeth gwych i gwsmeriaid dros y ffôn, gyda'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl.

Cyflog cystadleuol o hyd at £10,000 yn ogystal â buddiannau. Oriau gwaith rhwng 0800 a 2200 o ddydd Llun i ddydd Sul.

Os ydych yn ymfalchio yn eich gwaith a'ch bod am fod yn rhan o un o brif sefydliadau ariannol y byd, ffoniwch ni ar y rhif isod ar Ddydd Mawrth, Dydd Mercher neu Ddydd Iau o 9 o'r gloch hyd at 3 y prynhawn.



Banc Midland

*Aelod Grŵp HSBC*

01792 494342

Cyflogwr Cyfleoedd Cyfartal

# DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

**Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes Faenol Ffôn: 871174**



*Manon Wyn Jones, brenhines carnifal Deiniolen 1998-99 gyda'i morwyn, Bronwen Phillipson.*



*Genod y Bull yn ennill Cwpan Rofi yng Nghaernarfon. Dymuna'r genod ddiolch i James a Wendy am eu cefnogi drwy'r tymor ac hefyd i Ieuan Williams am y bysus.*

CEFNYWAUN AC EBENESER: Cafodd plant yr Ysgol Sul eu gwobrwyo am ddysgu'r maes llafur yn y Gymanfa a gynhaliwyd yn Rhiwlas. Bu rhai o aelodau'r eglwysi yn Sasiwn y Chwiorydd a gynhaliwyd yn Rhosllannerchrugog ddechrau mis Mai.

CYNGOR EGLWYSI. Cynhaliwyd oedfa ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol yn festri Ebeneser nos Lun, Mai 11. Defnyddiwyd gwasanaeth arbennig oedd yn canolbwyntio ar y cymorth a gynigir gan Cymorth Cristnogol yn Ethiopia i'n helpu i ddysgu am y gwaith a wneir gan yr elusen hon mewn degau o wledydd trwy'r byd. Gwnaed casgliad o ddrws i ddrws yn y pentref yr wythnos honno.

Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd swper blynyddol y Gymdeithas Undebol yng Ngwesty'r Anglesey Arms, Porthaethwy, nos Wener, Mai 1. Mr John Huw Hughes, Llanberis oedd y gŵr gwadd. Diolch i Mr Tydfil Jones am wneud y trefniadau eleni eto.

LLONGYFARCHIADAU i Paula ac Aneurin Jones, Llangefni (gynt o Ddeiniolen) ar enedigaeth eu mab, William Gethin, brawd bach i Elin Fôn, ar Ebrill 28. Llongyfarchwn hefyd Barry a Buddug Thomas, 5 Rhydfadog ar ddod yn daid a nain, ac i Mrs Nan Owen, 48 Rhydfadog ar ddod yn hen nain.

CLWB 220 Y SEINDORF. Enillwyr mis Ebrill oedd 1, Ian Williams, 39 Rhydfadog; 2, E. W. Williams, 6 Ffordd Deiniol; 3, Mrs Eileen Hughes, 5 Rhes Fictoria.

CYD (Cymdeithas Dysgwyr a Chymry Cymraeg). Bydd cyfarfod yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, nos Wener, 6 Mehefin, am 8.30 p.m. Croeso cynnes i bawb i ymuno yn y noson anffurfiol hon. Cysylltwch â John Fraser Williams (870136) neu ag Elfyn Williams (880962).

EGLWYS CRIST, LLANDINORWIG *Gŵyl Gorawl Eryri.* Cynhaliwyd yr Ŵyl Gorawl eleni ddydd Sul, 17 Mai. Cafyd cyfarfod ar gyfer y plant a'r bobl ifanc yr Ysgolion Sul yn Eglwys y Santes Fair, Y Felinheli. Cafodd nifer dda o'r plant lleiaf dystysgrif a chanmoliaeth am ddysgu ar lafar waith o'r maes llafur. Diolch yn fawr i'r athrawon Ysgol Sul, Mrs Eileen Hughes a Mrs Gwen Griffith am eu gwaith da efo'r plant a llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus. Gyda'r hwyr cafwyd Cymanfa Ganu yn Eglwys Deiniol Sant, Llanddeiniolen gyda Mr Cledwyn Jones, Bangor yn arwain a Pharti Clychau'r Grug, dan arweiniad Mrs Glenys Griffith, Bethel, hefyd yn rhoi eitemau ar gân.

*Dydd Gweddi a Rhodd.* Cynhelir eleni ddydd Sul, 14 Mehefin. Bydd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid fel arfer am 8.30 a.m. ac yna gwasanaeth y Gosber am 6 p.m. Y pregethwr gwadd yn y gwasanaeth hwnnw fydd y Parchg Andrew Jones, M.A., M.Phil., Rheithor Llanbedrog, ger Pwllheli.

*Trip i Lincoln ac Efrog — 10-13 Awst.* Maer Parchg Tegid Roberts wedi trefnu trip i'r plwyfolion i Lincoln ac Efrog yn yr wythnos ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol. Erys rhyw hanner dwsin o seddau ar y bws. Os oes diddordeb yna cysylltwch rhag blaen i gael manylion pellach.

DIOLCH. Dymuna Evelyn Jones, 7 Rhes Lôn Las ddiolch i'w theulu, cymdogion a staff Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd am bob caredigrwydd. Diolch hefyd i Dr Oddy, Llanberis am ei gofal. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Paula ac Aneurin Jones ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a'r cardiau a gawsant ar enedigaeth eu mab bach. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mr Les Roberts, Bury St. Edmunds, Suffolk (gynt o Lôn Las, Deiniolen) ddiolch o galon i drigolion yr ardal am y cardiau a'r cymorth a dderbyniodd yn sgil marwolaeth ei wraig, Peggy. Un o Suffolk oedd Peggy a bu'r ddau yn byw yn Neiniolen am ddeugain mlynedd. Bu Peggy yn gweithio yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor am ddeugain mlynedd cyn ymddeol a symud yn ôl i'w hardal enedigol i fyw. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Macpela gyda chyn-weinidog Eglwys Ebeneser, Y Parchg Trefor Lewis, yn gwasanaethu.

Dymuna Mrs M. Pleming, 31 Rhydfadog ddiolch am yr holl gardiau a'r caredigrwydd a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd.



*Badgers Urdd St. Ioan yn cael eu cyflwyno â thystysgrifau Cymorth Cyntaf a Glendid gan Mrs Jennie Williams. Diolch hefyd i Alison Jones a Clarissa Williams am eu dysgu.*


**Wavell Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

**Y Bistro**
LLANBERIS
Ffôn: 871278
PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS
**LLE DA I WLEDDA**
Beth am **Fwffe Enwog Nerys** (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas.
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
**Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro nos Wener olaf bob mis**

OSMOND SHAW
DEINIOLEN
GWERTHU
- TRWSIO
★Teledu ★Fideo
★Offer Trydan
Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

# Llythyr o'r 'Mericia

Cambria, P.O.
Wisconsin
U.S. America
July 18th 1884

Anwyl frawd,

Gyda llawenydd y derbyniais dy garedig lythyr ar y 10ed cyfisol. Yr oedd yn llawen gennyf ddeall dy fod wedi gwella mor dda, fel yr oeddyt yn gallu dechreu dy orchwyl yn y chwarel. Yr wyf yn sicr dy fod wedi diflasu ar fod oddiyno cyhyd o amser. Gallaf dy goelio yn hawdd yn dweud dy fod yn teimlo yn fwy ysbrydol yn y chwarel nag oddi yno, er ei fod yn dda iawn arnat rhagor aml un.

Braidd na buasai yn well arnat o ran y cyflog fodd fel yr oeddyt. Ond y mae cael diangc o afael afiechyd yn fwy o werth na'r holl drysorau oeddyt yn ei dderbyn. Yr oedd yn dda gennyf ddeall dy fod wedi mwynhau dy daith mor gysurus. Braidd nad oedd gymmaint a thaith dy frawd o dy flaen oddiyna i Cambria, Wisconsin.

Yr oedd yn ddrwg iawn, iawn gennyf ddeall am yr hen ewyrth a modryb wedi myned i ffwrdd mor sydyn, y mae yn rhywfodd yn anhawdd iawn ei goelio, ond y mae yn rhaid gwneud. Bydd lle chwithig iawn yn yr Hen Gae Esgob heb yr un o honynt. Y mae golwg ar eu preswylfod, ac arafwch yr hen ewyrth yn parablu gymaint o weithiau wrthyf wrth fynd i'r chwarel yn y boreu. Golwg mor ieuengaidd ar modryb, a'r digrifwch diniwed y byddai yn llawn o hono bob amser, ynghyd a llawer o fan bethau eraill yn bortread byw o fy mlaen y fynyd hon. Llaer gwaith y bum yn carlamu o'r hen Glwt y fawnog a thros Pen y Bryn i'r hen Gae Esgob, ac ar ol cyrraedd yno, ond odid fawr, na byddwn yn carlamu yr un mor chwyrn yn fy nghylfin fel colomen Noah. Nid wyf yn meddwl yr anghofiaf byth mor dda y byddai tamaid modryb, yn enwedig y frechdan fara cymysg. Nis gallaf beidio colli dagrau wrth feddwl na chaf byth yn rhagor weled caredigrwydd yr hen fodryb Catrin.

Anfonwch i mi dipyn o'r hanes pa fodd y mae pethau yn digwydd tua Chae Esgob, pwy fydd yn fwyaf tebygol o fod yno ar eu holau, a thipyn o hanes yr ewyllys, a pha faint oedd eu gwerth.

Mae yn bur debyg mae nid anyddorol fuasai gennyt gael tipyn o hanes ein Cymanfa a fu yn ei cael ei chynal yn Cambria yma. Cawsom dywydd hyfryd iawn ar ei hyd, fel yr oedd Rhagluniaeth yn ffafriol yn y cyfeiriad hwnw. Nid yw ddiben myned i ddweud trefn y moddion, na phwy oedd yn pregethu. Cei hynny ar y daflen sydd yn amgeuedig, ond rhoddaf rhyw frasluniad o honi drwyddi.

Oherwydd fod y tywydd mor ffafriol, yr oedd yna dyrfa fawr o Gymry wedi casglu at ein gilydd bore dydd Iau, a phawb yn cyfarch eu gilydd yn y modd mwyaf caredig, fel pe buasent yn un teulu mawr heb gael gweled eu gilydd ers blynyddau lawer. Peth hynod o synedig i mi oedd clywed braidd bawb yn parablu yn Gymraeg. Cymraeg oedd hi o'r dechrau i'r diwedd, onibai fod fy meddwl yn tystio yn erbyn, buaswn yn credu mai mewn Cyfarfod Misol yr Arfon yr oeddwn.

Buaswn yn guessio mae tua 900 oedd nifer y gwrandawyr, ac wrth hynny gwelwch ei bod yn Gymanfa luosog iawn, ac ystyried ei bod mor bell yn y Gorllewin maith yma. Arwyr y Gymanfa oedd Joseph Roberts, Racine, Wis. Hugh Davies, Pennsylvania, a Benjamin Davis o Trecorci, S. Wales. Yr oedd y tri yn bregethwyr rhagorol iawn, nid oedd yn bosibl tynny llinell wahaniaethol rhyngddynt. Yr oedd yr olygfa ar y gynulleidfa yn tystio eu bod yn cael gwledd yw heneidiau trwyddynt. Yn ol fy mhrofiad fy hun, a golwg ar y gynulleidfa, gallaf eu cyffelybu i'r ddaear ar ol sychder maith yn agor ei safn am y gwlaw, felly am y Gymanfa. Yr oedd y dyrfa fawr fel yn ireiddio o dan y gwlith nefol oedd yn disgyn.

Digwyddodd un peth hynod iawn mewn cysylltiad a mi yno. Am 2 yn y prydnawn yr oedd hen wr yn dechrau yr oedfa, a'r fynyd y gwelais ef meddyliais fy mod wedi ei weled o'r blaen, ond cofiais o'r diwedd mae tebyg iawn ydoedd i un yr oeddwn wedi ei weled lawer gwaith, sef John Jones, Bryn r'odyn. Yr oeddwn yn edrych, ac yn craffu arno cyn iddo roi pennill allan i ddechrau, ac yn credu yr wyf fy hun fod hwnacw yn frawd i John Jones a D. Jones.

Ond o'r diwedd fe ddaeth i fynny gan roddi pennill allan i'w ganu, erbyn hyn yr oeddwn yn sicrach yn fy meddwl ei fod yn frawd iddynt. Gwrandewais ar ei lais pan yn darllen pennod yn fwy o lawer nag ar y peth oedd yn ei lefaru, a thrwy yr holl amser nis gallwn yn fwy beidio gweled yr hen Bryn yr Odyn yn dod i'r golwg ynddo. Ond o'r diwedd fe aeth i weddi ac erbyn iddo ddarfod gweddio yr oedd yn ddigon sicr yn fy meddwl fod hwn yn frawd i J. Jones. Yr oedd John Jones ar lan bedd W. Jones Llwynbedw i'w weled mor blaen yn y pulpud yn Cambria, Wisconsin. A braidd mor naturiol a phe buasai yno ei hun, yn enwedig yn ei weddi. Yr oeddwn yn dipyn yn anesmwyth o eisiau cael gwybod pwy ydoedd. Holais lawer ar ol yr oedfa 2, ond nid oedd neb yn gallu dweud ond mae 'J. Jones, pregethwr' fyddant yn ei alw yma. Penderfynnais myned atto i ofyn iddo a oedd yn rhyw berthynas i John Jones Bryn R'odyn, Sir Gaernarfon, ar ôl diwedd yr oedfaon y nos. Felly fu, a gofynnais iddo, ac attebodd fi yn gadarnhaol, a gofynnodd ar darawiad a oeddwn yn ei adwaen, a dywedais innau fy mod mor adnabyddus a'i frawd D. Jones, ag oedd gyda Nhad o'r bron. 'Ac rwyt ti yn dod o ymyl Dafydd a wyt ti? wel, wel, pa sut y mae ei wraig. Clywais yn ddiweddar ei bod yn wael iawn,' meddai. Ond nis gallwn ddweud wrtho achos yr oedd yn bur dda pan yr oeddwn i yn ymadael. Bu yn holi llawer arnaf ynghylch Dafydd (chwedl yntau) ac yr oedd yn falch iawn, iawn, o gael tipyn o'i hanes. Cefais wadd mawr iawn i'w gartref yn Dodgeville, Wis. Yno y mae efe yn pregethu ychydig yn achlysurol, ond nid yw ddim gwerth o bregethwr, ond y mae yn weddiwr da iawn.

Y mae ei frawd W. Jones yn Arena, Wis, clywais James yn sokn am hwnnw cyn i mi ymadael, fel ei hen athraw. Y mae gwraig J. Jones yn ddynes hardd iawn, ieuengach nag ef o flynyddau lawer. Y mae hi yn perthyn ychydig o bell i mi medda hi. Y mae yn chwaer i Robert Rowlands sydd yn ddiacon da yn Eglwys Sion yma, ac y mae ei frawd, Daniel Rowlands yn pregethu yn Bath, Dakota. Rhai o Bethesda ydynt, ac yn rhai o'r hen deulu o ochr fy Nhad.

Ychydig o fy hanes i fy hun yn awr. Yn dal yn fy iechyd yn rhagorol iawn, yn teimlo y gwaith yn fwy naturiol i mi o laer na'r llynedd. Ddim yn teimlo cymmaint o lawer oddiwrth y gwres, ac yn teimlo yn fwy cartrefol ym mhob ystyr. Dim awydd rhoddi goreu i grefydd o gwbl, yn hytrach fel arall, yn gweled mwy o werth ynddi o hyd. Ni fyddaf yn colli yr Ysgol Sul. Yn cael mwyl o bleser ynddi nag mewn dim arall. Yn myned i'r Seiat bron bob wythnos.

Wel, rhaid terfyn bellach, gan obeithio y bydd nawdd rhagluniaeth drosoch hyd byth yna oll fel teulu.

Felly terfynaf gan gofio attoch oll fel teulu a phawb o'r hen gyfeillion.

Ydwyf dy anwyl frawd,

OWEN

Y mae y gennod yn dal i edrych yn dda iawn. Bu ar y ddwy dipyn o hiraeth, ond y maent wedi dod drosto. Y mae Ellen wedi twchu, ac yn edrych yn dda iawn. Y mae Betty yn myned at Tom a Jemima i Dakota yr wythnos nesaf, ac y mae Lizzie yn dod yma yn ei lle. Y mae Lizzie yn byhafio yn iawn, etto.

---

# DRAENOG



**Mae'r 'Bingo' wedi cael gafael llwyr ar ambell un. Yn enwedig rhai o ferched Llanberis. Clywais am un yn gyrru o Lainwen er mwyn danfon perthynas i gêm yn un o westai'r pentref. Ymlaen wedyn i Gae Heti — a cherdded adra. Methu'n lân a deall ble roedd y car — meddwl yn siŵr fod y gŵr, neu'r mab, wedi ei fenthyg am y noson — ac roedd angen y car i nôl y berthynas o'r Bingo! Mae'n dipyn o waith cerdded o Lainwen i Gae Heti — ddwywaith mewn noson!**


Cefnogwch ein Hysbysebwyr

**CARPEDI GERAINT OWEN**

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR **(01286) 650552**

**SYSTEMAU RHYBUDD a GWASANAETH TRYDANOL**

**G.P.**

★ **Lleihau y perygl o ladrad** ★

**Fe synnech mor hawdd a sydyn y gall eich cartref gael ei ddiogelu rhag lladron**

**BARGEN ARBENNIG!**
**Cyflenwi a gosod system am cyn lleied â**
**£250** (+ TAW)
(Pob system yn cydsynio â B.S. 4737)

**Os oes gennych system eisoes ac angen ei uwchraddio, neu angen gwasanaeth cynnal a chadw, cysylltwch â ni:**

**(01286) 674422 neu (01248) 670923**

**AFALLON, BETHEL, CAERNARFON, GWYNEDD LL55 1UN**

**Gwesty**
**Dolbadarn**
**LLANBERIS Ffôn: 870277**



**Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.**

# CANLYNIADAU EISTEDDFOD PLWYF LLANBERIS



*Rhai o'r plant ieuengaf fu'n fuddugol yn yr Eisteddfod . . .*

### CERDD

Canu 5 oed: 1, Lowri; 2, Miriam a Tomos; 3, Megan. 4 oed: 1, Alice; 2, Gwenllian; 3, Mathew. Dan 4 oed: 1, Jessica; 2, William; 3, Sioned. Unrhyw offeryn cerdd dan 8 oed: 1, Manon. Canu 6 oed: 1, Lindsey; 2, Angharad; 3, Anest. Dan 8 oed: 1, Bedwyr; 2, Glesni. 8-10 oed: 1, Ian; 2, Angharad; 3, Hywel. Canu emyn dan 8 oed: 1, Ceri; 2, Tomos; 3, Bedwyr. Deuawd dan 12 oed: 1, Ian a Carys; 2, Elin a Stephanie. Unawd werin dan 12 oed: 1, Ian; 2, Stephanie; 3, Elin a Rhiannon. Parti canu dan 12: 1, Parti Carys; 2, Parti Nicolas. Unrhyw offeryn cerdd (dim piano) dan 12 oed: 1, Sioned; 2, Stephanie; 3, Sioned. Canu emyn 8-12 oed: 1, Elin; 2, Sioned; 3, Ian. Canu 10-12 oed: 1, Elin; 2, Stephanie; 3, Rhiannon. Cân actol dan 12 oed: 1, Y Picnic; 2, Y Llongwrs. Canu'r piano dan 12 oed: 1, Elin; 2, Tomos; 3, Carys. Canu 12-15 oed: 1, Louise. Unrhyw offeryn 12-15 oed: 1, Steven; 2, Gwen. Canu 15-25: 1, Elen; 2, Mari. Piano 12-15 oed: 1, Gwen. Deuawd dros 15 oed: 1, Ann ac Elen; 2, Clarie a Mari. Cystadleuaeth canu'r piano agored, Cwpan Coffa Miss C. Williams, Summer Hill: 1, Ann. Canu dros 25 oed: 1, Robat John. Canu emyn dan 50: 1, Mari; 2, Dilys. Deuawd dros 25 oed: 1, Dilys Mai a Delyth.

### LLEFARU

5 oed: 1, Lowri; 2, Megan a Miriam. 4 oed: 1, Alice; 2, Gwenllian; 3, Mathew. Dan 4 oed: 1, Jessica; 2, William; 3, Sioned. 6 oed: 1, Tomos; 2, Heledd a Manon; 3, Anest ac Angharad. Dan 8: 1, Bedwyr a Sara; 2, Glesni; 3, Manon. 8-10 oed: 1, Angharad; 2, Hywel a Tomos; 3, Jade. 10-12 oed: 1, Sioned; 2, Elin a Rhiannon. 15-25 oed: 1, Erica.

Roedd Elin Mai Jones yn fuddugol yn y gystadleuaeth Cwpan Carnifal Llanberis i gystadleuwyr llwyfan dan 12 oed. Yn ail roedd Ian a Sioned. Bedwyr oedd yn drydydd.

Roedd Gwen yn fuddugol yn y gystadleuaeth Cwpan Carnifal Llanberis i gystadleuwyr llwyfan i rai 12-15 oed, gyda Louise a Steven yn ail.

Rhoir y cwpannau i'r unigolion a ddaw'n fuddugol gyda mwyaf o farciau yng nghystadlaethau llwyfan.

### RHYDDIAITH

Bl. 0: 1, Megan; 2, Alex; 3, Amy. Bl. 1: 1, Katie; 2, Cherise; 3, Janie. Bl. 2: 1, Iwan; 2, Donna; 3, Sioned. Bl. 3: 1, Ceri; 2, Alice; 3, Byron. Bl. 4: 1, Joseph; 2, Gwenonwy; 3, Angharad. Bl. 5: 1, Alaw Ceris; 2, Gruffudd Pritchard; 3, Aneira Thomas. Bl. 6: 1, Bleddyn Jones; 2, Iwan Lloyd a Rhiannon Williams; 3, Ceri Jones.

Enillydd Cwpan Carnifal Llanberis am y gwaith Rhyddiaith orau eleni yw Alaw Ceris.

### BARDDONIAETH

Limrig: 1, R. Lloyd, Dôl Elidir.

*Daeth Beirniad rhy hen i'r eisteddfod*
*Ei olwg, a'i glyw sydd yn darfod*
*Y gadair i Mair*
*'Sgwennodd 'run gair*
*Gwnaeth ddiawl o gawl o un cyfarfod.*

Llinell Goll: 1, H. R. Jones, 13 Stryd y Ffynnon.

*Ennill Ras y Wyddfa wnaeth Mari*
*A'i gwobr oedd gwyliau'n y Barri*
*Ond pwy a'i a hi*
*Dywedwch i mi*
*Pwy arall yn wir ond Ken Cyrli.*

Emyn Priodas: 1, R. Lloyd, Dôl Elidir

*I'r llan daw dau mewn undod*
*Ger bron y Drindod lân,*
*I ofyn am Ei fendith*
*I'r ddau yn ddiwahân.*

*Rho iddynt dy arweiniad*
*Ar daith y rhodiant hwy,*
*A thrwy holl lwybrau cariad*
*Eu serch a dŷf yn fwy.*

*Rho heulwen ar eu bywyd*
*A chwmwl, weithiau glaw,*
*Ac odlau melys hyfryd*
*Wrth gerdded yn dy law.*

### RHYDDIAITH

12-15 oed: 1, Dafydd Pritchard, Llanberis; 2, Carys, Cwm-y-glo.

Mae pwyllgor yr Eisteddfod wedi penderfynu eu bod am longyfarch y llenor ifanc ac mae iddo gwpan i'w gadw am flwyddyn. Cwpan sy'n cael ei gyflwyno am y tro cyntaf eleni a gobeithio y bydd cystadlu brwd ar y gystadleuaeth hon yn y dyfodol.

### CANLYNIADAU GWAITH LLAW

Dosbarth derbyn: 1, Megan; cydradd 2, Adrieyl a Siôn; cyd. 3, Gethin a Tomos. Bl. 1: 1, Garym; 2, Martin; cyd 3, Janie a Craig. Bl. 2: 1, Alaw; 2, Angharad; 3, Sioned. Bl. 3/4 (Miss Owens): 1, Hywel; 2, Laura, 3, Tomos Parry. Bl. 4/5 (Mr Gwilym): 1, Miranda; 2, Daniel; 3, Elin Mai. Bl. 5 (Mr Parry): 1, Gruffudd; 2, Aneira; 3, Rhiannon Jones. Bl. 6 (Mr Parry): 1, Rhiannon Williams; 2, Iwan Lloyd; 3, Sarah Jane.



*. . . a'r cystadleuwyr llwyddiannus 10 ac 11 oed.*

### Y DAITH BERYGLUS

'Deffra, Dewi, deffra,' gwaeddodd Iona wrth ei brawd. 'Deffra, mae hi'n bwrw eira.'

Bore fel arfer oedd hi yng nghanol gaeaf ac roedd hi'n bwrw eira yn Dinorwig a Dewi'n dal i gysgu.

'O, Iona, be wyt ti eisiau?' meddai Dewi'n gysglyd.

'Ma hi'n bwrw eira.'

'Wel, dim ond eira ydio,' dywedodd Dewi'n wawdlyd.

Cerddodd Iona o ystafell Dewi'n flin a chau'r drws yn glep, wedyn rhedodd i lawr y grisiau i gael brecwast.

Roedd h'in 9.30 a.m. pan ddaaeth Dewi i lawr i gael ei frecwast ac roedd Iona allan yn chwarae yn yr eira.

'Dewi, dwi eisiau siarad efo chdi,' dywedodd Mam.

'Ia?' dywedodd Dewi.

'Roeddwn i'n clywed dy fod ti wedi bod yn gas efo Iona.'

'Do!'

'Pam?' gofynnodd ei fam.

'Roeddwn i'n trio cysgu,' dywedodd. 'Beth wyt ti eisiau i mi 'i wneud i fadda iddi hi?'

'Mynd â hi am dro i fyny'r mynydd i wneud dyn eira mawr.'

'Na, na, Mam, byth!' dywedodd.

'Dewi!'

'O, iawn,' dywedodd

Ar ôl i Dewi newid cychwynnodd Dewi a Iona ar eu taith. Fe gymerodd hi lawer o amser i gerdded i fyny'r mynydd ac fe arhoson nhw men lle roedd yna lawer o eira iddyn nhw gael gwneud dyn eira.

'Dewi, wnei di fy helpu i adeiladu dyn eira, plîs?'

'Pam?' gofynnodd Dewi.

'Gan ei bod hi'n anodd gwneud un ar fy mhen fy hun.'

'O, ocê, 'ta!'

Cychwynnodd Dewi yn syth ar y gwaith. Ar ôl gorffen y dyn eira roedd gan Dewi gamera yn ei boced i dynnu llun y dyn eira. Aeth Dewi'n rhy bell ac yn rhy agos i'r ochr pan oedd o'n tynnu'r llun ac wrth iddo'i dynnu fe ddisgynnodd i lawr ochr y mynydd.

'DEWI!' gwaeddodd Iona gan ddechrau crio.

BANG! Glaniodd Dewi ar ei gefn ar ddarn o lechen. Wrth lwc fe welodd pobl eraill hyn yn digwydd ac aethant at Iona i'w chysuro ac wrth lwc roedd gan un o'r teithwyr ffôn symudol ac fe ffoniodd yr RAF. Ar ôl pum munud o ddisgwyl clywsant sŵn hofrenydd yn y pelleter.

Yn yr ysbyty fe gafodd Dewi sgan ac roedd o wedi torri'i gefn ac am ddiwrnod roedd o'n anymwybodol ac roedd o'n gorfod cael cadair olwyn. Ond rŵan mae Dewi'n dal i fwynhau gwneud pethau.



*. . . a rhai o fuddugwr 6-8 oed . . .*


# BWS BACH AR LOG



**Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan**

# D. P. OWENS

**RHIWLAS**

**01248–361044**

# Gwraig y Tŷ yn yr Ardd

Cefais wledd un bore yr wythnos yma wrth agor y llenni yn y bore bach gan wedl yr haul yn codi'n belen goch y tu ôl i'r Carnedd. Cofiwn am yr amser yr awn i fyny'r Wyddfa i weld y wawr yn torri a chofio am ryw Sais, a oedd yn sefyll y tu ôl imi'n dweud, 'Well done, God!'. Mae'r emynydd yn dweud:

*Mi bellach goda' i maes,*
*Ar fore glas y wawr,*
*I weld y blodau hardd*
*Sy 'ngardd fy Iesu mawr;*

Beth am y blodau fu'n cysgu yn y potiau — mae'r cennin Pedr bach wedi gorffen blodeuo ac wedi gwneud lle i flodau'r haf. Rhaid peidio a'u plannu yn rhy fuan, mae dywediad peidiwch a phlanu dim hyd ddiwedd Mai, nes bydd y perygl o rew wedi diflannu.

Mae arnaf awydd plannu begonias eleni — rwy'n hoffi'r rhai bach *begonia semperflorens* ydi'r enw crand arnyn nhw ac mae nhw'n fanach na'r rhai mwy ac mor hardd ochr yn ochr a myniawyd y bugail (geranium). Rwyf am eu cadw yn agos at y tŷ i gael sbec bach arnyn nhw'n aml.

Ar wahân i roi'r blodau mewn potiau, dwi rŵan yn tyfu rhywbeth i'w fwyta. Perylys yw'r ffefryn gan wraig y tŷ. Roedd ffrind i mi yn dweud un diwrnod ei bod hi'n hoffi saws persli efo pysgod ond nad yw o hanner cystal mewn paced wedi'i brynu o'r siop. Wel, beth am hau ychydig mewn pot bach i ddechrau a'u rhoi ar ffenest y gegin? Mae eisiau tipyn o amynedd efo fo oherwydd mae'n cymryd dipyn o amser i ddangos ei hun, ond fe ddaw. Yna fe fyddaf yn ei roi mewn pot mwy ac allan â fo — y tu allan i ddrws y gegin, a chael rhyw binsiad fel bo'r angen, mewn salad neu gawl cartref.

Dwi wedi mynd dros ben llestri wrth blannu mewn potiau eleni. Deuthum ar draws dwy hen dysen wedi egino a dyma fi'n meddwl — mi roi rhain mewn pot mawr yn y tŷ gwydr i mi gael tatws newydd yn gynnar — dim ond rhyw bryd bychan i dorri blys. Caf weld beth ddigwydd!

Mae'r tri planhigyn tomato a blannodd cyfaill imi yn dod ymlaen yn ardderchog. Os gwn i sut rai fyddan nhw eleni? Rhai bychan fel ceirios oedd yna y llynedd a rhai melys iawn oeddan nhw hefyd. Mae'r math yma yn ddrud iawn yn y siopau, medda' nhw.

Dyna fo am y tro. Dwi ddim yn mwynhau'r rhaglen garddio ar y teledu cystal ag a fyddwn i — y cyflwynydd ddim mor gartrefol a'r rhai a fu.


Gwynedd Hotel
& Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul



IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484
★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.


# Cymanfa Ysgolion Sul Cylch Padarn

Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Ysgoldy, Rhiwlas pnawn a nos Sul, Mai 3ydd. Arweinydd y gân oedd Miss Sioned Meleri Owen, Bethel. Llywyddwyd cyfarfod y pnawn gan Mr Humphrey Jones, Rhiwlas a chyfarfod yr hwyr gan Mr Goronwy Jones, Cysegr. Plant Ysgol Sul Rhiwlas fu'n gyfrifol am y gwasanaeth dechreuol yng nghyfarfod y pnawn a Mrs Eunice Jones, Rhiwlas yn arwain gwasanaeth dechreuol yr hwyr.

Dyma'r rhai fu'n llwyddiannus yn yr Arholiad Llafar:

Dan 4: Gerallt Jones, Manon Elwyn Hughes, Iwan Lloyd Jones, Aron Martin Hughes, Glesni Sharpe, Lowri Sharpe, Elin Owen, Bronwen Price, Ilid Speake, Cysegr; Emma Owen, Sioned Wyn Jones, Rhiwlas; Ffion Wyn Jones, Daniel Jones, Ceirion Williams, Deiniolen; Mared Meleri Morris, Dinorwig; Siân Jones, Capel Coch. Dan 5: Siân Jones, Dyfan Huw, Cysegr; Tomos Williams, Miriam Pritchard, Capel Coch; Danny Wyn Owen, Rhiwlas; Gwenno Medi Morris, Dinorwig; Anna Gwenllian Geroge, Brynrefail. Dan 6: Llio Hywel, Sioned Brown, Angharad M. Price, Robin Jones, Siôn Elwyn Hughes, Mari Elena, Cysegr; Mannon Pritchard, Llion Wyn Jones, Ceri Wyn Hughes, Heledd Mair Thomas, Capel Coch; Elin Ann Morris, Dinorwig; Aaron Wyn Jones, Manon Wyn Jones, Ashley McGwigan, Gavin Taylor, Liam Joseff, Ffion Medi Jones, Deiniolen; Dan 7: Elliw Gwenllian, Ffion Medi Roberts, Hefin Owen, Hanna Gwyn, Iona Speake, Cysegr; Sarah Pary, Sarah Elizabeth Jones, Alaw Deln Thomas, Capel Coch; Caryl Ann Williams, Sioned Adwen Williams, Deiniolen; Caryl Jones, Awen Jones, Rhian George, Brynrefail. Dan 8 oed: Siôn Gareth Owen, Aled Gwilym Jones, Ian Morris Jones, Cysegr; Tomos Parry, Ian Wyn Williams, Gwyn Pritchard Jones, Capel Coch; Dylan Wyn Owen, Rhiwlas; Gwenllian Owen, Deiniolen; Rhian Wyn Morris, Sioned Mair Phillips, Dinorwig. Dan 9: Janine Williams, Rhiwlas; Carwyn Jones, Ifan Thomas, Gwen Mererid Tomos, Gwenonwy Alun, Capel Coch; Lowri Vaughan Jones, Iola Thorman Jones, Cysegr; Manon Wyn Jones, Clare Louise Thomas, Deiniolen. Cydadrodd dan 9: Parti Gemma, Rhiwlas. Dan 10: Angharad Jones, Catrin Parry, Ffion Thorman Jones, Nia Glyn, Rhys Hughes, Cysegr; Gruffydd Siôn Pritchard, Sioned Wyn Jones, Michelle Allsup, Rhiannon Jones, Alaw Ceris, Capel Coch; Donna Elizabeth Phillips, Dinorwig. Dan 11: Gwion Meilir Owen, Cysegr; Ellen Williams, Brynrefail; Gemma Louise Clarke, Rhiwlas; Llifon James Jones, Capel Coch; Ceri Bryn Morris, Dinorwig. Dan 12: Cadi Osler, Ffion Williams, Lois Wyn Hughes, Cysegr; Gethyn Siôn Pritchard, Capel Coch. Dan 13: Ffion Owen, Iwan Morris, Cysegr; Amy Lambert, Brynrefail; Dafydd Siôn Pritchard, Capel Coch. Dan 14: Arwyn Owen, Cysegr. Dan 50: Mr Gareth Jones, Capel Coch; Mrs Deilwen Hughes, Mrs Ann Lewis, Mrs Sharon Quinn, Mrs Myfanwy Harper, Cysegr. Dros 50: Mr Richard Evans, Brynrefail; Mrs Elizabeth Evans, Mrs Edwina Morris, Mrs Nora Parry a Mrs Nancy Williams, Cysegr; Mrs Betty P. Roberts, Mr John P. Roberts a Miss Marian Jones, Dinorwig; Mrs Eunice Jones, Rhiwlas.

Carai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i swyddogion, aelodau ac athrawon Ysgol Sul Rhiwlas am dderbyn y Gymanfa ac am eu gwaith caled i'w gwneud yn llwyddiannus. Diolch yn arbennig am y wledd a gawsom. Diolch yn fawr iawn hefyd am y gefnogaeth a gawsom gan y gynulleidfa.

**PEIDIWCH Â GORI AR STORI**
**ANFONWCH HI I'R *ECO***


GORSAF BETROL
Esso BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion
TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!



Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
Secure in our protection WA
Sefydlwyd 1980
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)
NHBC
Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon
Federation of Master Builders



Fframia
GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
*(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)*

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263**

CYDYMDEIMLIR yn ddwys â Gracie, Tom, Margaret a'u teuluoedd i gyd yn eu profedigaeth fawr o golli Mrs Margaret Alice Jones, 6 Rhos Rug ar 9fe Mai.

Cydymdeimlwn â Mrs Gladys Williams a'r teulu yn eu colled fawr yn dilyn marwolaeth Mr Griffith Williams, Lôn Las ar 14 Mai.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Ellis, Plas Pengwaith (Rhos Rug gynt), a'r meibion a'u teuluoedd yn dilyn marwolaeth ei mab yn Y Felinheli yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Llinos Haf Hughes, 16 Nant y Glyn, a Llinos Catrin Roberts, Graianfryn, Ffordd yr Orsaf, am basio arholiad ffidil, gradd 1, yn ddiweddar. Da iawn genod.

CÔR CLYCHAU'R GRUG. Bu'n fis hynod brysur i'r Côr. Nos Fercher, Mai 13, bu'r genod yn canu yng Nghapel Jerusalem, Bethesda; nos Iau yng Ngwesty Fictoria, Llanberis a nos Sul, Mai 17, yn Eglwys Llanddeiniolen.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, Mai 12, aeth llond bws o aelodau'r gangen ar daith i Blas Tan-y-bwlch. Tywyswyr hwy o gwmpas y gerddi gan ŵr ifanc o'r enw Chris, un oedd yn amlwg yn arbenigwr yn ei faes. Roedd y terasau ffurfiol, yr ardd ddŵr a'r llyn i gyd yn rhan ucha'r gerddi, ynghyd â lawntiau llethrog, llwyni a choed conifer, rhai wedi'u plannu ers Oes Fictoria. Roedd y rhodedendron a'r coed azalia yn goelcerth o liwiau. Mae'r gerddi wrthi'n cael eu hadfer trwy brosiect tymor hir. Mae'r coedlannau hanner gwyllt yn gynefin i amrywiaeth o adar, pryfed, anifeiliaid bychain a blodau gwyllt, rhai ohonynt wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt Cefn Gwlad 1981. Wedi'r daith cafwyd bwffé i orffen y noson.

Diolchodd y Llywydd, Bethanne Williams, i Nan a Gwenda am y trefniadau trylwyr. Cydymdeimlwyd â Margaret Jones, Dwyros ar golli'i mam. Diolchodd Jean Roberts i'r gangen am y galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd Siôn wedi'i ddamwain a da deall ei fod yn cryfhau a bellach yn medru mynd allan.

Gweithgaredd Mehefin fydd Taith Gerdded yng ngofal Dafydd Whiteside Thomas. Cychwynnir o giât yr Ysgol Gynradd am 7 nos Fawr, Mehefin 9. Cofiwch wisgo esgidiau addas. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

GWŶL WANWYN y Pum Rhanbarth. Aeth pum aelod o'r gangen i'r Ŵyl yn Neuadd John Phillips, Bangor, Sadwrn, Mai 9. Thema'r diwrnod oedd 'Geiriau'r Gân', sef geiriau Cân Merched y Wawr gan D. Jacob Davies. Cychwynnwyd gyda choffi a gweld hen ffrindiau a gair o groeso gan Sulwen Davies, y Llywydd.

Agorwyd y cyfarfod gyda Parti'r Parc yn canu 'Ein Hiaith a'n Gwlad'. Yna cafwyd gair am D. Jacob Davies gan y Prifardd J. Gwilym Jones a bu'n 'trin geiriau'r' gân yn gelfydd a difyr. Yna bu'r Dr Hywel Wyn Owen yn sôn am 'enwau' a hynny'n tu hwnt o fywiog a diddorol. Yn dilyn daeth Mair Penri a'i Chriw i ddiddori, a doniol a gogleisiol iawn oedd yr eitemau hefyd. Wedi cinio arbennig o flasus dangoswyd 'lluniau' o'n gwlad gan Mary Vaughan Jones, ac er ei bod wedi trafaelio'r byd, ei led a'i hyd, does unman yn debyg i Gymru, meddai.

Cafwyd araith gynhwysfawr ac un i gnoi cil arni gan Toni Schiavone ar y testun 'Gormes'. Mwynhawyd dull hamddenol Ieuan ap Siôn gyda'i gitâr a'i ganu cerdd dant am Gymru.

Diweddwyd y cyfarfod llwyddiannus gyda gair gan y Llywydd Cenedlaethol, Valerie Jones, a'r diolchiadau gan Owena W. Jones. Gorffennwyd yr Ŵyl gyda 'Cân y Mudiad'.

RHANBARTH ARFON. Cynhelir Gwasanaeth Carolau, nos Sul, Rhagfyr 6. Felly, cofiwch amdano a nodwch ef rŵan yn eich dyddiadur.

YR YSGOL GYNRADD

Mae Ysgol Gynradd Llanrug wedi derbyn adroddiad rhagorol gan Arolgwyr ei Mawrhydi, wedi wythnos o archwiliad yn nhymor y gwanwyn. Dywed yr adroddiad y darperir 'profiadau cyfoethog' o fewn yr ysgol a bod safonau'r holl bynciau yn dda neu yn dda iawn.

Roedd Cadeirydd y Llywodraethwyr, y Cynghorydd Brian Jones, wrth ei fodd o dderbyn yr adroddiad. Meddai, *'Rwy'n llongyfarch pawb sy'n ymwneud â'r ysgol, yn arbennig y staff a'r disgyblion. Dyma un o'r adroddiadau gorau a welais erioed.'*

Ychwanegodd, *'Mae'r adroddiad hefyd yn canmol cefnogaeth "ffyddlon a haelionus" y rhieni, ac yn nodi fod llu o gysylltiadau cyfoethog â'r gymuned leol "yn hyrwyddo twf personol a chymdeithasol y disgyblion.'*

Roedd y prifathro, Robin Williams, yntau wedi ei blesio gan ganmoliaeth yr Arolygwyr. Meddai, *'Mae'n dilyn gwaith caled gan dîm o staff a llywodraethwyr ymroddedig sy'n sicrhau'r addysg orau bosib i blant Llanrug.*

*'Mae cynnal safonau da iawn yn holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar draws y ddau gyfnod allweddol yn brawf teilwng o gynllunio trylwyr blaengar a dychmygus yr athrawon. Argymhelliad canolog yr Arolygwyr yw y dylem "... barhau i gynnal y safonau da iawn a datblygu'r gwaith da ymhellach." Byddwn yn ymateb yn bositif i bob awgrym – megis cryfhau'r cysylltiad rhwng y dosbarth meithrin a gweddill yr ysgol ar draws y buarth.'*

Ychwanegodd, *'Bydd canmoliaeth yr Adroddiad i'n safonau uchel yn sbardun i ni fwr 'mlaen â'r dasg o gynnal y safonau "da iawn" i'r mileniwm nesaf. Anogaf rieni i ddarllen yr Adroddiad – bydd pob un yn derbyn crynodeb ac mae copïau o'r Adroddiad llawn ar gael yn yr ysgol.'*



*Margaret Jones, Trysorydd cangen Llanrug o Ferched y Wawr; Bethanne Williams, Llywydd; a Nan Humphreys, Ysgrifenyddes, gyda'r Tlws a enillodd y gangen am lyfr lloffion.*

## DRAENOG

**Cwpwl, nid anenwog, o Benisarwaun wedi mentro i Ddwyrain Lloegr am wyliau Pasg. Aros yn nhref N..... Cael y teimlad fod pawb yn grachaidd iawn yno — ceir crand ac acen tysen boeth yn y gwddf. Y gŵr wedi cae! llond bol, a phan ofynnwyd iddo a oedd yn berchen cwch hwylio, yr ateb a roddodd oedd, *'No, but I have a Marina here!'*.**

## Hedfan Eto? . . . efallai!

Dyma fi yn fan'ma yn laddar o chwys ac yn oer drosof . . . rydw i'n gafael yn dynn ym mraich fy sedd — mor dynn nes bod fy migyrnau'n crynu . . . ac ma 'nghoesa i fel jeli . . . dwi bron â mygu. Bydd yn RHAID imi fynd i'r tŷ bach.

' 'Rargol! W't ti'n iawn?' holai fy ngŵr wrth weld fy ngwedd yn newid.

'Ydw . . . ydw, siŵr iawn,' atebais yn ddi-hidio, gan edrych yn syth o'm blaen.

Dyna'r llais melfedaidd, neisneis yna eto —*'Good evening, ladies and gentlemen . . .'*

'Hy! . . . *good evening to you too!'* medda finna dan 'y ngwynt. Gwelaf rhai o'm cyd-deithwyr yn troi i'm cyfeiriad a chlywaf ambell bwffian chwerthin.

Â'r llais ymlaen, '. . . *and we are now flying at a height of 35,000 feet, at a speed of 500 miles per hour . . . do enjoy your flight.'*

'Dwi'n mynd allan, RŴAN!, reit . . .'

'Fedri di ddim mynd ALLAN o le fel'ma . . . eistedd i lawr a thria, neno'r nef, i fwynhau'r profiad.'

Rydw i'n cau fy llygaid ac mi driaf gael tipyn o gwsg. Be sy'n digwydd r-ŵ-a-n? Mae pawb yn rhoi ochenaid hir hefo'i gilydd ac mi rydw innau ar fy nhraed ac yn sgrechian nerth esgyrn fy mhen nes bod y ddynes o'm blaen yn neidio i fyny yn ei sedd. Mae'n troi ei hwyneb ataf . . . mae fel balŵn goch ar fin ffrwydro ac mae ei llygaid fel dwy farblen las yn ei phen . . . mae'n rhythu arnaf, ac fe suddaf innau, o gywilydd, yn ôl i'm sedd.

*'Do you mind . . . we're nervous as it is, without someone like you screaming the place down,'* a rhy ochenaid ddofn wrth ollwng ei hun yn ôl i'w sedd.

*'Yes, please, lady . . . DO control your wife, sir . . .'* meddai un arall y tu cefn inni.

'Hy! *control* wir, dim ci bach, neu blentyn bach mewn clytia, ydw i.'

Suddaf yn ddyfnach i'm sedd tra fo fy ngŵr yn troi ei ben y ffordd arall i osgoi'r holl embaras.

*'Sorry, ladies and gentlemen, that was just a slight turbulence. I do hope you all enjoyed our simulated flight and that you have overcome your nervousness . . . good day.'*

Mae pawb yn araf godi o'u seddau ac mae'r 'ddraig' yn troi ataf eto . . .

*'Neurotic persons like you should be banned from planes . . .'*

Gwelaf ei gŵr yn gafael yn dyner yn ei braich gan ei chysuro, *'There, there, dear . . . just ignore her . . .'*

Yr hen jades!

'Glywist ti? . . . *niwrotig* . . . does 'na neb wedi 'ngalw i'n hynny o'r blaen . . .'

'Nac oes, ma'n siŵr,' meddai 'ngŵr, ac edrychaf innau arno'n ddryslyd. 'Ty'd, mi awn ni adra — i bacio!'

MAIR HUMPHREYS


GWASANAETH TRYDANOL

ERYRI ELECTRICAL FRON DEINIOLEN

★ AIL WEIRIO
★ CAWODYDD
★ GOLEUADAU DIOGELWCH
★ LARWM LLADRON
★ CYNNAL A CHADW

(01286) 870858 SYMUDOL 0467 774 326

# CROESAIR MEHEFIN



ENW ..............................................................................................

CYFEIRIAD ...................................................................................

........................................................................................................

........................ ........................ CÔD POST ...........................

### AR DRAWS


1. Cyfansawdd o ocsigen ac elfen arall (5)
4. 1 i lawr sy'n gyfarwyddyd i ganu'n dawel (5)
7. Mintai fawr (4)
9. Â charn euraid, daw o Wern Ddur (7)
10. Ymateb (8)
11. Yn anafus, daeth o'r ynys i gwyno (4)
12. Ewin aderyn neu anifail (7)
14. Yr offer a ddefnyddir i ddenu sŵn o 8 i lawr (3)
15. Dymuniad pob chwaraewr rygbi (4)
17. Un slei ydi dyn â gradd dda ganddo (5)
18. Metel caled a wneir o gymysgu haearn a charbon (3)
23. Caria 'mlaen – dal --- (3)
24. Tiwb metel dryll y cedwir cwrw ynddo (5)
25. Newid cyfeiriad (4)
26. Arswyd (3)
27. Yr 1 i lawr na ddylai'r Sais chwythu un o'i eiddo ei hun (7)
29. Casgliad o bobl yn defnyddio 1 i lawr (4)
33. Gormod o ffydd (8)
34. Adeilad uchel (7)
35. Sbonc (4)
36. Bwyell gam yn gyfrifol am chwalu neuadd (5)
37. Ffŵl (5)

16. Y garreg a ddaw o chwarel ger Llithfaen (6)
19. Pobl sy'n rhoi ar gof a chadw (10)
20. 1 ar draws sydd â thyllau ynddi (5)
21. Dehonglwr (8)
22. Newid i ffurf cyfoes (8)
26. Yr 1 i lawr sydd yn y corff (5)
28. Llysieuyn a ddaw o Sweden? (5)
30. Methedig (5)
31. Hedegog (4)
32. Sŵn cloch (4)

### I LAWR

1. Megis 4 a 27 ar draws a 3, 8, 20 a 26 i lawr (6,4)
2. Blas drwg o un sir! (5)
3. 1 i lawr a gaiff ei guro (4)
4. Hawarden (8)
5. Un sydd ddim yn llaraidd (8)
6. Rhod (5)
7. Dad mam (4)
8. Yr 1 i lawr sy'n eiddo Myfi o Lanrug (5)
13. Hances (5)
14. Bychander hyd (6)

## ATEBION CROESAIR MAI



Derbyniais atebion cywir i groesair mis Mai gan E. E. Jones, Rhoshirwaun; Dorothy Jones, Llanrug; Nansi Davies, Rhuthun; Beryl Jones, Garndolbenmaen; N. Hughes, Cwm-y-glo; Mabel Parry, Porthmadog; Dafydd Owen, Penisarwaun; Ceridwen Williams, Llanrug; Huw Tegid Roberts, Llanrug; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Olwen Owen, Llanberis; Gwyneth Lloyd, Caernarfon; Mrs G. Gill, Bangor; Mary Davies, Waunfawr; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Catherine A. Jones, Rhiw; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Eirwen Roberts, Tre-garth; Mair Evans, Caernarfon; Rosemary Williams, Tre-garth; Chris Roberts, Llanrug; Mair Foulkes, Penisarwaun; Olwen Jones, Bethel; M. P. Jones, Clynnog; Nan Owen, Llanberis; Moreen Lennon, Llanberis; Eluned Jones, Pencaenewydd; Jenny Williams, Clynnog; Eurwyn Thomas, Waunfawr; Iorwerth a Joan Williams, Caernarfon; ac enillydd y mis, sef **Mrs Rhiannon Pritchard-Jones, Glan Ddôl, Clynnog Fawr.** Llongyfarchiadau a'r £5 ichi.

Ar ôl cwblhau Croesair mis Mehefin gyrrwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn Mehefin 22.

## ECO'R WYDDFA

### INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN I 31 Mawrth 1998

| INCWM | | |
|---|---|---|
| Gwerthiant | | 5025.93 |
| Hysbysebion | | 8100.00 |
| Rhannu Taflenni | | 122.00 |
| Rhoddion | | 1126.50 |
| Grantiau: | | |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | 982.00 | |
| Cyngor Celfyddydau Gogledd Cymru | 380.00 | |
| Cynghorau Cymuned: | | |
| Llanberis | 250.00 | |
| Llanddeiniolen | — | |
| Llanrug | 500.00 | |
| Waunfawr | 75.00 | |
| | | 2187.00 |
| Llog Banc | | 13.26 |
| | | **£16574.69** |

| GWARIANT | |
|---|---|
| Argraffu | 16478.79 |
| Ffotograffiaeth | 134.28 |
| Post | 328.80 |
| Papur a Labeli | 16.00 |
| Gwobrau Croesair | 50.00 |
| Cystadleuaeth Pêl-droed | (1.12) |
| Costau Eraill | 15.00 |
| | **17017.75** |
| Colled am y flwyddyn | **443.06** |

### Y SEFYLLFA AR 31 MAWRTH 1998

| Asedau Tymor Byr | |
|---|---|
| Yn ddyledus i'r Eco | 3228.60 |
| Cyfrif Banc | 1030.51 |
| | 4259.11 |
| Llai Credydwyr | 3062.88 |
| **Cronfa'r Eco** | **1196.27** |

## CALENDR MIS MEHEFIN

**2. Mawrth** **LLANBERIS:** Y Gyfeillach yng Nghapel Jerusalem am 2.
**5. Gwener** **LLANBERIS:** Cyfarfod o CYD yng Ngwesty Dolbadarn am 8.30 p.m.
**6. Sadwrn** **CAERNARFON:** Bore Coffi — Pwyllgor yr Anabl, Merched y Wawr.
**9. Mawrth** **LLANRUG:** Taith gerdded Merched y Wawr.
**10. Mercher** **BETHEL:** Cyfarfod olaf Merched y Wawr am y tymor.
**11. Iau** **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwiorydd gyda Mr Neville Hughes.
**14. SUL** **DEINIOLEN:** Dydd Gweddi a Rhodd yn Eglwys Llandinorwig. **PENISARWAUN:** Dydd Gweddi yn Eglwys Santes Helen.
**15. Llun** **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — cyfarfod blynyddol. **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched.
**19. Gwener** **PENISARWAUN:** Taith gerdded noddedig.
**28. SUL** **YR ARDAL:** Cyfarfodydd Cymdeithas y Beibl yng Nghapel Brynrefail am 2 a 6. **CWM-Y-GLO:** Noson o gân yn yr Ysgol am 7.30 p.m.

### GORFFENNAF

**3. Iau** **BETHEL:** Plygu'r Eco.
**4. Sadwrn** **DEINIOLEN:** Y Carnifal.

## RHODDION

**£10: Parchg John Glyn a Sioned, Garmon, Strad Tŷ Hen, Waunfawr. Selwyn Griffith, Crud yr Awen, Penisarwaun.**

**£5: Er cof am Mrs M. G. Williams, Llain yr Ardd, Bethel. Glyn Tomos, Caernarfon. Mr Les Roberts, Bury St. Edmunds (gynt o Lôn Las, Deiniolen). Mrs Myfi Thomas, 2 Bryn Teg, Llanberis. Heulwen a Trefor Edwards, Stryd Fawr, Llanberis.**
**£3: Carys a Tecwyn Hughes, 1 Stryd Yankee, Llanberis. Ceinwen Williams, Bod Owen, Rhesdai Cambrian, Llanberis. Irfon Thomas, Buarthau, Llanrug.**
**£2: Mrs M. Plemming, 31 Rhydfadog, Deinolen. Teulu Buddug a Barry Thomas, 5 Rhydfadog, Deiniolen. Gwenda Jones, 11 Bryntirion, Penisarwaun.**


J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol

Cerrig o bob math ar gael

**Ffôn: (01286)**
**672898 (dydd)**
**676285 (nos)**

# CHWARAEON

## CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL



*Y rhai a dorrodd recordiau yng nghyfarfod Athletau Gogledd Cymru.*

Rwy'n croesawu dau ohebydd gwadd i'r golofn y tro hwn. Mae gan Carol Ann Jones adroddiad am gyfarfod Athletau Gogledd Gwynedd ac mae un o aelodau tîm pêl-fasged Ysgol Brynrefail wedi rhoi hanes eu taith i Gaerdydd. Diolch i'r ddau gyw-newyddiadurwyr am eu cyfraniadau.

**ATHLETAU**

Gwnaethom gychwyn o'r Ysgol am 9.10 o'r gloch. Cawsom hwyl ar y bws. Roedd Becky a fi a Diana yn chwerthin. Cyrraedd tua 10.45 o'r gloch. Roedd Diana yn rhedeg dros y clwydi. Cafodd hi'r ail wobr. Roedd yn ddiwrnod poeth i redeg.

Roedd Carol Jones a Becky Jones yn rhedeg y ras 1500 medr. Roedd rhaid i ni redeg rownd y trac dair gwaith. Cafodd Becky'r wobr gyntaf a thorri'r record, a daeth Carol yn ail. Roedd 5 person wedi torri recordiau, sef Arfon Jones, Carol Jones, Becky Jones, Claudette Flemming a Gareth Jones. Cafodd Paul Crane yr ail wobr am daflu'r bicell.

Gwnaeth pawb yn hynod o dda. Roedd pawb yn boeth ac wedi cael lliw haul. Roedd pob aelod o'r tîm yn diolch i Miss Jones a Mr Holland am drefnu'r daith. Mae Miss Jones a Mr Holland yn llongyfarch pawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth. Roedd timau'r Ysgol yn llwyddiannus iawn. Bydd rhai o'r disgyblion unigol yn mynd ymlaen i gynrychioli Gogledd Gwynedd yng Nghyfarfod Athletau Eryri ddydd Sadwrn, 6ed Mehefin. Mae'n debyg y bydd y rhai gafodd gyntaf neu ail yn eu cystadlaethau yn cael eu dewis ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Diolch i bawb am wneud eu gorau glas.

**PÊL-FASGED**

Cychwynnodd tîm pêl-fasged Ysgol Brynrefail i Gaerdydd fore dydd Mercher, Ebrill 29, i chwarae yn rownd derfynol Cwpan Pêl-fasged Cymru. Colli'r gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Treorci wnaethom o 8 pwynt. Yn yr ail gêm roeddem yn chwarae yn erbyn Ysgol Cwm Rhondda. Roedd yn gêm agos yn yr hanner cyntaf, a ninnau'n colli o 2 bwynt. Yn yr ail hanner colli wnaethom o 7 pwynt. Yn y drydedd gêm, colli wnaethom eto yn erbyn tîm o Gaerdydd. Roedd pawb yn ymdrechu'n galed iawn. Er i ni golli yr oeddem wedi dod yn bedwerydd trwy Gymru gyfan. Mae'r tîm yn rhoi clod mawr i Mr Holland am ein dysgu ac am fynd â ni i lawr i Gaerdydd.

**NOFIO**

Mae Eifion Williams wedi datblygu yn nofiwr addawol iawn ledled Cymru. Yr her ddiweddaraf oedd cystadlu ym Mhencampwriaeth Prydain yn Sheffield. Daeth llwyddiant aruthrol unwaith eto – enillodd dair medal aur ac un fedal arian. Llongyfarchiadau mawr iawn.


Cynhelir Mabolgampau'r Ysgol ddydd Iau, Mehefin 4ydd. Edrychir ymlaen am gystadlu brwd.



*Tîm llwyddiannus Llanberis a gurodd Llangefni o 3 gôl i 0 i ennill Cwpan Cookson ar ddiwedd y tymor.*

## Hatric – rŵan Cap!

Mae'r Eco dros y blynyddoedd wedi rhoi cryn sylw i ddatblygiad unigolion mewn gwahanol gampau. Bu enwau Colin Jones, Alun Vaughan, Eifion Jones ac Elin Dafydd mewn sawl colofn. Ychydig yn ôl hefyd soniais am Tom Evison, y cricedwr 14 oed o Gaeathro. Mae criced yn ei waed o ochr ei dad. Y tymor diwethaf cefais gofnodi ei gant cyntaf ac yntau ar y pryd ond 13 oed. Erbyn hyn mae Tom yn chwarae'n gyson dros ail dîm Bangor, ac yn un o fowlwyr blaenllaw y tîm. Hyd yn hyn mae wedi cipio 12 wiced mewn tair gêm, gan gynnwys ffigurau anhygoel o 6-21 yn y gêm yn erbyn Rhuthun. Roedd yr helfa honno'n cynnwys yr hatric chwedlonol – tair wiced mewn tair pelen yn olynnol. Dros gyfnod o bron 40 mlynedd o fod yn gysylltiedig â Chlwb Bangor ni allaf feddwl am neb arall yn cyflawni'r gamp hon mor ifanc â Tom mewn gêm oedolion. Mae rhai'n awgrymu mai ef yw'r ieuengaf i gyflawni'r gamp yn hanes Cynghrair y Gogledd. Ac, wrth gwrs, mae'n cael llwyddiant mawr pan fo'n chwarae mewn gêmau ei oedran ei hunan. Derbyniodd lythyr pwysig yr



*Tom Evison*

wythnos ddiwethaf yn ei hysbysu iddo gael ei ddewis i dîm dan 14 oed Cymru. Bellach mae pob tîm cenedlaethol yn cael ei redeg o dan drefniadaeth Bwrdd Criced Cymru. Bydd gan Tom gryn dipyn o waith teithio yr haf yma gan fod y tîm yn chwarae ledled Prydain. Yn ffodus iddo bydd un o'i gyd-chwaraewyr ym Mangor, Nicholas Ellis, yn y tîm hefyd. Teg nodi hefyd bod trydydd aelod o'r tîm ieuenctid – Siôn Gwyn o Landwrog – wedi'i ddewis i dîm dan 16 Cymru. Tipyn o gamp i unrhyw glwb yw cael tri chynrychiolydd mewn carfannau cenedlaethol yn yr un flwyddyn. Mae'n sicr yn wobr i'r clwb am ei ymroddiad pendant i hyfforddi'r ieuenctid.

## Y Glas yn Suddo



*Tîm llwyddiannu Y Gleision.*

Mae cryn ganmol y dyddiau hyn ar y ffordd y caiff neuadd snwcer Llanberis ei rhedeg. Mae nifer o fechgyn ieuainc addawol yn mynychu'r clwb ac mae argoelion bod tîm llwyddiannus yn datblygu ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Cymysglyd yw hanes y clwb yng Nghyngrair Bangor a'r Cylch. Bydd y tîm cyntaf – Y Gleision – yn anffodus yn disgyn i'r ail adran y tymor nesaf. Ond bydd gan y pentref gynrychiolaeth yn y brif adran er hynny, gan fod yr ail dîm – Y Duon – wedi ennill dyrchafiad. Roedd y tîm o fewn dwy ffrâm i gipio pencampwriaeth yr ail adran. Y ddwy ffrâm honno oedd y gwahaniaeth gan fod y ddau dîm ar y brig wedi gorffen y tymor yn gyfartal o ran pwyntiau. Ond cafwyd tarian am orffen yn ail. Daeth tarian enillwyr cystadleuaeth y parau i Lanberis. Dau dîm o Lanberis oedd yn y rownd derbynol yng Nghlwb Cymdeithasol Bangor. Mewn ffeinal gofiadwy curodd Keith Roberts a Bryn Jones (o dîm y Gleision) Allan Jones ac Oliver Edwards (o dîm y Duon). Tair ffrâm i ddwy oedd y sgôr. Tymor o sefydlu eu hunain yn y brif adran sy'n wynebu'r Duon tra bydd y Gleision ar dân i adennill eu lle yn yr adran honno.

**PWYSIG! PWYSIG! PWYSIG!**

**NOSON 'TLWS YR ECO' WEDI'I NEWID.**

**Bydd cystadlaethau Tlws yr Eco OED CYNRADD yn cael eu cynnal NOS IAW, 11 MEHEFIN.**

**Mae'r trefniadau a'r rheolau eraill yn AROS fel y'i nodwyd yn y rhifyn diwethaf.**

**Cofiwch anfon y ffurflenni cofrestru, a'r tâl os yn bosibl, erbyn nos Wener, 5 MEHEFIN.**

**Dim ond UN gystadleuaeth PÊL-FASGED a gynhelir ar gyfer timau oedran Bl. 3 hyd at Bl. 6 yr ysgol gynradd.**